Adroddiad Blynyddol
2024/25

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# ADRODDIAD PERFFORMIAD



# CYNNWYS


Cyflwyniad 6

Ein Cynllun Strategol 9

**Blaenoriaeth Stategol Un:** Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd 13

**Blaenoriaeth Stategol Dau:** Hyrwyddo llesiant meddyliol a chymdeithasol 16

**Blaenoriaeth Stategol Tri:** Hyrwyddo ymddygiadau iach 20

**Blaenoriaeth Stategol Pedwar:** Cefnogi datblygu system gofal iechyd gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar 25

**Blaenoriaeth Stategol Pump:** Darparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd rhagorol i amddiffyn y cyhoedd a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd y boblogaeth 30

**Blaenoriaeth Stategol Chwech:** Mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iechyd y cyhoedd 37

Galluogi cyflawni ein Cynllun yn llwyddiannus 40

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 65

Sylwadau i gloi 76

# RHAGAIR



**Pippa Britton OBE PLY**
Cadeirydd y Bwrdd
Iechyd Cyhoeddus Cymru



**Tracey Cooper OBE**
Prif Weithredwr
Iechyd Cyhoeddus
Cymru

## Mae'n bleser ac yn fraint i ni gyflwyno Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024/2025.

Mae ein Hadroddiad Blynyddol eleni yn adlewyrchu lled a dyfnder ein gwaith, wedi'i strwythuro o amgylch ein chwe blaenoriaeth strategol ac wedi'i ategu gan ein strategaeth hirdymor, Gweithio Gyda'n Gilydd ar gyfer Cymru Iachach 2023–2035.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn o her a chynnydd i ni ac fe gafwyd cyflawniadau arwyddocaol ar hyd y ffordd. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ar draws maes iechyd y cyhoedd.

Yn erbyn cefndir o anghydraddoldebau iechyd parhaus, yr argyfwng costau byw parhaus, ac effeithiau parhaol pandemig COVID-19, rydym wedi aros yn gadarn yn ein cenhadaeth i wella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau ledled Cymru. Rydym wedi gwneud hyn yn erbyn cefndir o argyfwng costau byw, y pwysau ar wasanaethau iechyd a'r bygythiad parhaus i'r hinsawdd. I wneud hyn, rydym wedi arwain, cyflawni ac ymgysylltu â phartneriaid ar draws ein holl flaenoriaethau strategol wrth gyflawni ein Cynllun Strategol eleni. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi ein cefnogi ac wedi gweithio gyda ni dros y flwyddyn ddiwethaf.

Fe wnaethon ni ddatblygu ymdrechion i ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd, gan gynnwys tlodi plant, amodau tai ac iechyd yn y gweithle. Fe wnaethon ni hefyd gefnogi Awdurdodau Lleol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i weithredu cynlluniau llesiant sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Roedd ein gwaith i hyrwyddo llesiant meddyliol a chymdeithasol yn cynnwys ehangu rhaglen Hapus, datblygu Y Fframwaith Gweithredu ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, a chefnogaeth barhaus i ddull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl ac emosiynol.

Fe wnaethon ni hefyd gryfhau ein ffocws ar hyrwyddo ymddygiadau iach, gyda mentrau mawr ym maes rhoi'r gorau i ysmygu, atal diabetes, camddefnyddio sylweddau a rheoli pwysau iach.

Fe wnaethon ni gyhoeddi Buddsoddi mewn Cymru Iachach: Adroddiad Blaenoriaethu Atal sy'n mabwysiadu dull cwrs bywyd o ymdrin â'r ymyriadau atal mwyaf effeithiol i gefnogi gwneud penderfyniadau wrth symud i flaenoriaethu atal ledled Cymru. Yn ogystal, parhaodd ein gwaith iechyd rhyngwladol gyda ffocws penodol ar yr Economi Llesiant (rhoi iechyd wrth wraidd cymdeithas iach, sy'n sefydlog yn economaidd ac yn ariannol) i Gymru. Fe wnaethon ni gefnogi Llywodraeth Cymru i gynnal Deialog Polisi Sefydliad Iechyd y Byd ar yr Economi Llesiant yng Nghaerdydd, ac fe gafwyd cynrychiolaeth o Wlad yr Iâ, y Ffindir a'r Alban.

Cafodd ein gwasanaethau diogelu iechyd a heintiau cenedlaethol a'n rhaglenni sgrinio cenedlaethol flwyddyn eithriadol o brysur. Cyflawnodd ein gwasanaethau diogelu iechyd swyddogaethau iechyd y cyhoedd hanfodol, a oedd yn cynnwys lansio rhaglen frechu'r Feirws Syncytiol Anadlol (RSV), cryfhau parodrwydd ar gyfer argyfyngau a gwelliannau i'n gwasanaethau sgrinio a genomeg. Roedd hyn yn cynnwys ymestyn ystod oedran ein Rhaglen Sgrinio Coluddion genedlaethol er mwyn cynnwys unigolion 50 – 74 oed.  Gwnaethom gampau hefyd o ran mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar iechyd y cyhoedd drwy gynnal gwyliadwriaeth, gwneud ymchwil a chreu capasiti. Roedd hyn yn cynnwys gwaith ein Fframwaith Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru a'n Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd.

Wrth gefnogi datblygu system iechyd a gofal gynaliadwy, fe wnaethom lansio Fframwaith Iechyd a Gofal sy'n Seiliedig ar Atal, ehangu Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan a chyfrannu at ymdrechion atal clefydau deintyddol a chardiofasgwlaidd.

Chwaraeodd ein swyddogaethau galluogi ran hanfodol yn llwyddiant y cyflawniadau hyn—ein pobl, ein galluoedd digidol a data, ein systemau ansawdd a llywodraethu, ein cadernid ariannol a'n hymrwymiad i gynaliadwyedd ac arloesedd. Mae pob un o'r rhain wedi bod yn rhan annatod o sicrhau canlyniadau ar gyfer pobl Cymru.

> "WRTH I NI EDRYCH YMLAEN, RYDYM YN PARHAU I GANOLBWYNTIO AR GYNYDDU DISGWYLIAD OES IACH A LLEIHAU'R BWLCH RHWNG CYMUNEDAU MWYAF A LLEIAF DIFREINTIEDIG CYMRU"

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi cofleidio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac wedi ymgorffori meddwl hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys ym mhopeth a wnawn. Mae ein mapiau llwybr ar gyfer pob blaenoriaeth strategol wedi llywio ein camau gweithredu ac wedi darparu llwybr clir tuag at ein gweledigaeth ar gyfer 2035.

Wrth i ni edrych ymlaen, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gynyddu disgwyliad oes iach a lleihau'r bwlch rhwng cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig Cymru. Rydym yn cydnabod y bydd cyflawni'r uchelgais hon yn gofyn am gydweithio parhaus, hyblygrwydd a ffocws di-baid ar atal a thegwch. Mae hwn yn adroddiad cynhwysfawr o'r hyn yr ydym wedi'i wneud, ei gyflawni a'i ddysgu dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hefyd yn gosod sail ar gyfer cam nesaf ein taith—taith sydd wedi'i gwreiddio mewn gwaith partneriaeth, sydd wedi'i gyrru gan dystiolaeth, ac sydd wedi'i hymrwymo i greu Cymru iachach, decach a mwy cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yfory.

Yn olaf, hoffem ddiolch yn bersonol i bob un o'n pobl eithriadol ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru, ein Tîm Gweithredol a'n Cyfarwyddwyr Anweithredol am eu gwaith caled, eu hangerdd a'u hymrwymiad di-flino drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf.  Mae ein pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn a sut yr ydym yn ei wneud ac, unwaith eto, mae ein pobl hynod ymroddedig wedi mynd gam ymhellach i gyflawni blwyddyn ryfeddol arall eto o ddiogelu a chefnogi iechyd a llesiant pobl Cymru.





# CYFLWYNIAD

> "FODD BYNNAG, YN RHY AML, MAE POBL YNG NGHYMRU YN MYND YN SÂL NEU'N MARW'N RHY GYNNAR OHERWYDD BOD Y BLOCIAU ADEILADU SYDD EU HANGEN AR GYFER IECHYD DA YN WAN NEU'N ABSENNOL YN EIN CYMUNEDAU."

**Rydym yn wynebu heriau sylweddol yng Nghymru, yn enwedig yn gysylltiedig ag anghydraddoldebau iechyd llym a pharhaus. Mae pawb yng Nghymru yn haeddu'r cyfle i gael iechyd da.**

Fodd bynnag, yn rhy aml, mae pobl yng Nghymru yn mynd yn sâl neu'n marw'n rhy gynnar oherwydd bod y blociau adeiladu sydd eu hangen ar gyfer iechyd da yn wan neu'n absennol yn ein cymunedau. Mae gwaddol pandemig y Coronafeirws (COVID-19) a'r cynnydd parhaus mewn costau byw yn parhau i gael effeithiau dwys ar bobl Cymru. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig yr effeithiau uniongyrchol ar iechyd, ond hefyd y goblygiadau ehangach a thymor hwy i'n hiechyd a'n llesiant.

Mae'n bosibl mai newid yn yr hinsawdd yw'r bygythiad byd-eang mwyaf difrifol yr ydym yn ei wynebu. Bydd ei ganlyniadau yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd sy'n hanfodol i gyflawni a chynnal iechyd da. Mae hyn yn tynnu sylw at y rhyngddibyniaeth ddofn rhwng llesiant y boblogaeth a llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Er bod bygythiad COVID-19 wedi lleihau dros y flwyddyn ddiwethaf i bob golwg, rydym wedi parhau i fod yn wyliadwrus ynghylch bygythiadau clefydau trosglwyddadwy a pheryglon anheintus i bobl yng Nghymru.

Rydym wedi parhau i ddysgu o'n hymateb i'r pandemig er mwyn adeiladu cynlluniau cadarn ar gyfer ymateb i frigiadau o achosion yn y dyfodol. Hefyd, rydym yn gwybod yr effaith y mae'r heriau hyn wedi'i chael ar y system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

Mae'r pwysau ar y GIG a gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn sylweddol, ond mae hyn yn wir hefyd am bob gwasanaeth cyhoeddus. Rydym hefyd yn gwybod y bydd y cynnydd a ragwelir mewn ffactorau risg sy'n gysylltiedig â chyflyrau iechyd, ynghyd â phoblogaeth sy'n heneiddio, yn cynyddu ymhellach nifer y bobl sy'n byw gyda chyflyrau iechyd hirdymor.

Mae gan y rhan fwyaf o'r clefydau sy'n cynyddu'n sylweddol sbardunau allweddol cyffredin y gellir eu hatal, gan gynnwys: ysmygu, diet afiach, diffyg gweithgarwch corfforol ac yfed uchel ei risg. Mae lefelau isel o lesiant meddwl yn effeithio'n uniongyrchol ar allu unigolion i ofalu amdanynt eu hunain a gall arwain at fabwysiadu ymddygiadau sy'n niweidiol i iechyd fel strategaeth ymdopi. Nawr, yn fwy nag erioed, mae angen ymdrechion ar y cyd gan amrywiaeth o bartneriaid i fynd i'r afael â'r materion hyn dros y blynyddoedd nesaf.

Mae gennym gyfle, drwy wneud newid strategol ar draws y system i atal, i fynd i'r afael â'r heriau hyn ac i harneisio'r cyfleoedd sydd ar gael i ni yng Nghymru. Bwriad hyn yw sicrhau manteision yn y tymor byr, canolig a hir, gan gynnwys: lleihau baich ariannol clefydau y gellir eu hatal ar iechyd a gofal cymdeithasol a chyflogaeth, atal y cynnydd mewn clefydau y gellir eu hatal a mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd i sicrhau gwelliannau mesuradwy yn iechyd ein poblogaeth.

Rydym wedi gweld y pŵer a'r effaith y gallwn ei chael pan fyddwn yn defnyddio ein hymdrechion a'n harbenigedd ar y cyd, gan gynnwys y gwelliannau y gellir eu gwireddu ar raddfa fawr drwy groesawu arloesedd, datblygiadau technolegol a'n hymrwymiad i gydweithio.

> "RYDYM WEDI PARHAU I DDYSGU O'N HYMATEB I'R PANDEMIG ER MWYN ADEILADU CYNLLUNIAU CADARN AR GYFER YMATEB I FRIGIADAU O ACHOSION YN Y DYFODOL"

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) yn parhau i ddarparu'r sbardun deddfwriaethol galluogol i'n galluogi i fabwysiadu dull ataliol hirdymor, gan ganolbwyntio ar gynnwys y cyhoedd a chydweithio â'n partneriaid i ddarparu atebion integredig wrth i ni fynd i'r afael â'r heriau y byddwn yn eu hwynebu heddiw ac y byddwn yn eu hwynebu yfory. Rydym hefyd yn cydnabod ein bod yn parhau i weithredu mewn amgylchedd anwadal a newidiol ac, felly, byddwn yn parhau i ddangos gallu i ymateb yn ddeinamig i fygythiadau a chyfleoedd newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.

"RYDYM WEDI PARHAU I DDANGOS FFOCWS DIYSGOG AR LEIHAU ANGHYDRADDOLDEBAU IECHYD"

Wrth ddatblygu ein strategaeth, fe wnaethom ganolbwyntio ar ble gallwn ni, fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, ychwanegu'r gwerth mwyaf i bobl Cymru. Rydym wedi gwneud hyn drwy gyflawni ein chwe blaenoriaeth strategol, y mae ein hymrwymiad i leihau anghydraddoldebau iechyd yn eu hategu. Rydym wedi parhau i ddangos ffocws diysgog ar leihau anghydraddoldebau iechyd a sicrhau ein bod yn cyflawni'r gwerth a'r effaith fwyaf i'n poblogaeth er mwyn creu Cymru iach a chynaliadwy.



# EIN CYNLLUN STRATEGOL

**Yn dilyn cymeradwyaeth ein Bwrdd, cyhoeddom ein Strategaeth Hirdymor – Gweithio Gyda'n Gilydd dros Gymru Iachach, 2023-2035, ym mis Mai 2023, sy'n nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni Cymru lle mae pobl yn byw bywydau hirach ac iachach, a lle mae gan bawb fynediad teg a chyfartal at y pethau sy'n arwain at iechyd a llesiant da.**

Mae'r strategaeth yn nodi ein chwe blaenoriaeth strategol ac yn mapio'n fanwl sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â phob blaenoriaeth, sef:

1. Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd
2. Hyrwyddo llesiant meddyliol a chymdeithasol
3. Hyrwyddo ymddygiadau iach
4. Cefnogi datblygu system iechyd a gofal cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar
5. Darparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd rhagorol i amddiffyn y cyhoedd a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd y boblogaeth
6. Mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iechyd y cyhoedd

> "AR DDIWEDD Y FLWYDDYN, ROEDD DROS 86% O'N CERRIG MILLTIR CYFLAWNI WEDI'U CWBLHAU YN ERBYN EIN CYNLLUN SYLFAENOL"



dros
**86%**

o'n cerrig milltir cyflawni wedi'u cwblhau yn erbyn ein cynllun sylfaenol y cytunwyd arno ym mis Mawrth 2024.

Cyflwynwyd ein Cynllun Strategol ar gyfer 2024-27 (a elwir hefyd yn Gynllun Tymor Canolig Integredig) i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Mawrth 2024. Ar 9 Awst 2024, cawsom gadarnhad gan Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar / Prif Weithredwr GIG Cymru, fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cymeradwyo ein Cynllun Strategol ar gyfer 2024-27. Nod ein cynllun oedd adeiladu ar y cynnydd a wnaethom ers i ni lansio ein Strategaeth Hirdymor yn 2023 gyda'r nod o fynd i'r afael â'r heriau iechyd cyhoeddus allweddol sy'n wynebu Cymru.

## Cynnydd yn erbyn cyflawni ein cynllunn

Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, daeth ein Cynllun Strategol ar gyfer 2024/25 i ben ac, ar ddiwedd y flwyddyn, roedd dros 86% o'n cerrig milltir cyflawni wedi'u cwblhau yn erbyn ein cynllun sylfaenol y cytunwyd arno ym mis Mawrth 2024. Mae hyn yn cyfateb i gyflawni 204 o gerrig milltir o blith cyfanswm o 230 carreg filltir.

O'r 26 carreg filltir sy'n weddill (14%), y dywedwyd eu bod yn anghyflawn yn 2024/25, caewyd 9 carreg filltir gan nad oedd eu hangen mwyach oherwydd ailgynllunio, mae 10 carreg filltir wedi'u hatal o hyd ac mae dyddiad cyflawni arfaethedig 16 ohonynt wedi'u symud i'r flwyddyn ariannol nesaf a byddant yn rhan o'n cynllun ar gyfer 2025/26. Yn aml, roedd oedi wrth gyflawni oherwydd ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth, gan gynnwys dibynnu ar weithgareddau gan sefydliadau eraill.

Mae ein cynnydd wrth gyflawni ein cerrig milltir yn cynrychioli'r llwyddiant wrth gwblhau blwyddyn dau o'n Strategaeth Hirdymor, a oedd yn gyflawniad sylweddol i'r Sefydliad ac sy'n cynrychioli holl waith gwych ac ymroddiad ein staff yn ystod cyfnodau heriol iawn i wasanaethau cyhoeddus.


Adroddir ar gynnydd yn erbyn ein cynllun i'n Tîm Gweithredol a'n Bwrdd yn fisol trwy ein Dangosfwrdd Perfformiad a Sicrwydd ac Adroddiad Mewnwelediadau. Mae'r Adroddiad yn cynnwys y sgorau ar gyfer pob carreg filltir, adroddiad eithriadau ar gyfer y cerrig milltir lle y nodwyd problemau, a phroses reoli ar gyfer rheoli newidiadau yn gysylltiedig â chyflawni cerrig milltir gyda statws carreg filltir diwedd blwyddyn amcanol yn adrodd ar y gyfradd gwblhau. Hefyd, darperir sicrwydd parhaus i Lywodraeth Cymru drwy gyfarfodydd adolygu atebolrwydd ein Tîm Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig a'r Tîm Gweithredol ar y Cyd.

Mae rhagor o wybodaeth am ein meysydd blaenoriaeth a galluogi, gan gynnwys enghreifftiau o'r hyn a gyflawnwyd gennym yn 2024/25, ochr yn ochr â heriau allweddol a chyfleoedd i ddysgu, wedi'u nodi yn yr adran ganlynol.

> "MAE EIN CYNNYDD WRTH GYFLAWNI EIN CERRIG MILLTIR YN CYNRYCHIOLI'R LLWYDDIANT WRTH GWBLHAU BLWYDDYN DAU O'N STRATEGAETH HIRDYMOR"



# Ein Blaenoriaethau 2023-2035




**Ni yw Iechyd Cyhoeddus Cymru.**
**Rydym yn bodoli i helpu pawb yng Nghymru i fyw bywydau hirach, iachach.**

Ein gwerthoedd yw **gweithio gyda'n gilydd**, gydag **ymddiriedaeth a pharch** i **wneud gwahaniaeth**.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# **BLAENORIAETH STRATEGOL UN:** DYLANWADU AR BENDERFYNYDDION EHANGACH IECHYD



**Mae pawb yng Nghymru yn haeddu'r cyfle i gael iechyd da. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae pobl yng Nghymru yn mynd yn sâl neu'n marw'n rhy gynnar oherwydd diffyg y blociau adeiladu hanfodol sydd eu hangen ar gyfer iechyd da.**

Mae'r blociau adeiladu hyn yn cynnwys ein haddysg a'n sgiliau, cartref cynnes a diogel, gwaith, arian ac adnoddau teg, mynediad at drafnidiaeth fforddiadwy a chynaliadwy ac amgylcheddau ffisegol iach. Mae'r amodau hyn yn effeithio arnom o'n profiadau cynharaf a thrwy gydol ein hoes.

Y penderfynyddion ehangach sy'n sbarduno iechyd ac anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. Mae profiadau gwahanol o'r penderfynyddion hyn yn arwain at wahaniaethau mewn deilliannau iechyd, neu anghydraddoldebau iechyd, sydd yn eu tro yn gyfrifol am gyfran sylweddol o gyfanswm y marwolaethau cynnar ac afiechydon ym mhoblogaeth Cymru.  Mae'r gwahaniaethau systematig ac annheg hyn yn parhau ar draws y cenedlaethau.

Mae rhagor o wybodaeth am y flaenoriaeth hon ar gael yn ein Strategaeth Hirdymor.

## Yr hyn a gyflawnwyd gennym

### Tlodi Plant

Yn ystod 2024/25, rydym wedi canolbwyntio ar effaith tlodi, yn enwedig tlodi plant, yn sgil heriau costau byw a chyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru yn 2024.

Gyda'n partneriaid yng Ngrŵp Cydlynu Adeiladu Cymru Iachach, rydym yn arwain asesiad o'r angen i gefnogi cydweithio ar dlodi plant mewn modd sy'n galluogi ac yn grymuso. Rydym yn ymgorffori blociau adeiladu iechyd yn ein gwaith yn datblygu'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar (gweler blaenoriaeth 2).

### Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

Gan adeiladu ar 20 mlynedd o Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, rydym wedi parhau i ddatblygu dulliau asesu effaith ar iechyd, gan gynnwys darparu cyngor a chymorth arbenigol ac ymarferol i ddatblygu Rheoliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a pharatoi ar gyfer eu gweithredu.

Fe wnaethom ddatblygu ein Platfform Datrysiadau Tegwch Iechyd Cymru ymhellach i gefnogi ymgysylltiad â'r dystiolaeth, y data a'r offer ymarferol ar gyfer gweithredu ar anghydraddoldebau iechyd. Byddwn yn adeiladu ar ein gwaith hyd yn hyn, gan fframio blociau adeiladu iechyd, disgrifio dull economi llesiant sy'n rhoi iechyd ein poblogaeth wrth wraidd creu cenedl gynaliadwy yn ariannol ac yn economaidd, ymgysylltu llunwyr polisi â thystiolaeth a chefnogi asesiad o'r effaith ar iechyd, gan gyfrannu at reoliadau a chanllawiau. .

### Cartrefi Iach

Fe wnaethon ni archwilio effaith cartrefi oer ar iechyd a llesiant gydag adroddiad ac argymhellion ar y drefn wresogi foddhaol yng Nghymru a darparom dystiolaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar dlodi tanwydd yng Nghymru. Rydym nawr yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried y weledigaeth ar gyfer tai yn y dyfodol yng nghyd-destun tlodi plant.

"RYDYM NAWR YN GWEITHIO GYDA PHARTNERIAID I YSTYRIED Y WELEDIGAETH AR GYFER TAI YN Y DYFODOL YNG NGHYD-DESTUN TLODI PLANT."

## Iechyd yn y Gweithle

Rydym wedi datblygu ymhellach ein cynnig digidol i gyflogwyr drwy Cymru Iach ar Waith, gan helpu cyflogwyr i ddarparu'r gefnogaeth gywir i staff â chyflyrau iechyd aros mewn gwaith, gan archwilio ein dull o gefnogi cyflogwyr i leihau anghydraddoldebau mewn cyflogaeth i'r rhai sy'n byw ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor.

## Gweithio gyda a thrwy ein partneriaid

Rydym wedi cefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu gwaith i ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd, gan gynnwys drwy lansio'r Rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru, a ariennir gan y Sefydliad Iechyd. Gan weithio ar draws themâu tlodi ac anghydraddoldebau, yr argyfwng hinsawdd a natur, a llesiant cymdogaethau, mae'r Rhaglen yn canolbwyntio ar fabwysiadu dull systemau sy'n seiliedig ar theori a thystiolaeth i weithredu cynlluniau llesiant, gan rannu dysgu ledled Cymru a'r DU.

Fe wnaethon ni hefyd adeiladu ar y perthnasoedd cryf â llywodraeth leol, yn lleol mewn partneriaeth â thimau iechyd cyhoeddus lleol, gan greu cysylltiadau newydd yn rhanbarthol â Chyd-bwyllgorau Corfforaethol, ac yn genedlaethol trwy barhau â'n gwaith gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar flaenoriaethau cyffredin lle'r ydym yn cefnogi gwaith awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd.



# **BLAENORIAETH STRATEGOL DAU:** HYRWYDDO LLESIANT MEDDYLIOL A CHYMDEITHASOL



**Mae llesiant meddyliol a chymdeithasol yn elfennau hanfodol o iechyd gydol oes, gan lunio'r sylfaen ar gyfer unigolion a chymunedau iach.**

Llesiant meddyliol a chymdeithasol yw'r sylfeini ar gyfer pobl a chymunedau iach, gan gynnwys amrywiaeth o elfennau gwahanol; sut rydym yn meddwl, sut rydym yn deall ein hemosiynau ac emosiynau pobl eraill, sut rydym yn ffurfio perthnasoedd iach a'n gwydnwch, sut rydym yn gwneud synnwyr o'n profiadau.

Mae ein hamgylchedd cymdeithasol, gan gynnwys lle'r ydym yn byw, yn gweithio, yn chwarae ac yn dysgu, yn dylanwadu'n sylweddol ar ein llesiant meddyliol a chymdeithasol. Mae rhyngweithiadau plentyndod cynnar gyda rhieni neu ofalwyr ac ansawdd perthnasoedd â rhieni yn hanfodol wrth ddatblygu llesiant meddyliol. Gall amodau anghyson yn ystod plentyndod arwain at niwed hirdymor oherwydd profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs).

Mae rhwydweithiau cymdeithasol cryf o fewn teuluoedd a chymunedau, sy'n meithrin ymdeimlad o berthyn, cysylltedd cymunedol, ac ymgysylltiad gweithredol, yn cryfhau llesiant cymdeithasol. Mae cymunedau sy'n meithrin yr amodau hyn yn llai tebygol o brofi unigrwydd ac ynysu ac maent yn fwy gwydn yn wyneb adfyd a thrawma. Mae llesiant meddyliol yn hanfodol i'n gallu i ymdopi â heriau dyddiol ac ymarfer hunanofal. Gall llesiant meddyliol da liniaru effaith penderfynyddion ehangach, tra gall llesiant meddyliol isel eu gwaethygu. Mae rhagor o wybodaeth am y flaenoriaeth hon ar gael yn ein Strategaeth Hirdymor.

> RYDYM WEDI GWEITHIO'N AGOS GYDA LLYWODRAETH CYMRU I GEFNOGI DATBLYGIAD Y STRATEGAETH IECHYD MEDDWL A LLESIANT NEWYDD

## Yr hyn a gyflawnwyd gennym

Mae ein gwaith ar y flaenoriaeth hon yn cyffwrdd â phob oed, o'r 1000 diwrnod cyntaf o fywyd, drwy'r ysgol ac oedran gweithio, i bobl hŷn.

### Rhaglen Hapus

Fe wnaethon ni sefydlu ein Sgwrs Genedlaethol, Hapus, i helpu pobl i flaenoriaethu eu llesiant meddyliol a gweithredu i'w ddiogelu a'i hyrwyddo. Mae'r wefan wedi derbyn dros 100,000 o ymweliadau tudalen ac rydym wedi recriwtio dros 60 o sefydliadau cymunedol i'n rhwydwaith cefnogwyr Hapus. Rydym wedi cwblhau ystod o fesurau gwaelodlin ac wedi sefydlu rhaglen werthuso i'n helpu i ddeall a monitro effaith ein gwaith.

Mae Partneriaeth Strategol Hapus yn ymgysylltu ag amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Tempo, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, Cadw, Cydffederasiwn y GIG, Amgueddfa Cymru a'r Sefydliad Iechyd Meddwl, i gefnogi'r nod o ehangu mynediad at weithgareddau sy'n hyrwyddo llesiant meddwl a chyfranogiad ynddynt. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant newydd, yn enwedig datganiad gweledigaeth dau ar lesiant meddwl.

### Y 1000 Diwrnod Cyntaf

Mae ein rhaglen, y 1000 Diwrnod Cyntaf, wedi parhau i eiriol dros fwy o weithredu ar draws y system ar ddatblygiad cynnar plant fel sylfaen ar gyfer llesiant gydol oes. Arweiniodd y rhaglen y gwaith cydweithredol, gan ddod â rhanddeiliaid ynghyd i ddatblygu a chytuno ar Fframwaith Gweithredu a rennir ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar. Mae'r Fframwaith yn mynd i'r afael yn benodol â blaenoriaeth y Gweinidog ar y 1000 Diwrnod Cyntaf a'r cyfnod y tu hwnt iddo hyd at ben-blwydd y plentyn yn 5 oed. Cyhoeddir y Fframwaith Gweithredu ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar ym mis Mai 2025 a chynhelir digwyddiad lansio ym mis Mehefin 2025 i rannu'r Fframwaith yn ehangach a thrafod syniadau ar gyfer ei weithredu.

## Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol

Rydym wedi parhau i gefnogi'r gwaith o weithredu Fframwaith y Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol, gan gydweithio'n agos â Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar lefel leol. Rydym wedi cyrraedd 83% o holl gynlluniau gweithredu ysgolion, gan gyflawni'r targed o 80% erbyn diwedd mis Mawrth 2025.

Mae'r cynnydd mewn problemau iechyd meddwl ac emosiynol ymhlith plant a phobl ifanc wedi bod yn bryder ers peth amser ledled Cymru, y DU yn ehangach, yn ogystal â llawer o wledydd eraill yn rhyngwladol. Hyd yn hyn, mae'r ffocws wedi bod ar alluogi'r system i ymateb i'r anghenion a nodwyd ond mae angen deall hefyd beth sy'n sbarduno'r cynnydd hwn fel y gallwn hoelio sylw ein hymdrechion ar atal. Rydym wedi dod â chlinigwyr, academyddion a'r trydydd sector ynghyd i ddechrau archwilio'r mater hwn. Rydym wedi dechrau trwy weithio i nodi beth mae'r data yn ei ddweud wrthym am pryd ddechreuodd y cynnydd hwn, pa agweddau ar iechyd meddwl ac emosiynol sydd wedi dangos newid dros amser, yna byddwn yn defnyddio'r gwaith hwn i ddechrau archwilio achosion posibl.

> "MAE'R UNED ATAL TRAIS WEDI BOD YN BWRW YMLAEN Â GWEITHREDU FFRAMWAITH CYMRU HEB DRAIS AC WEDI DATBLYGU PECYN CYMORTH YMGYSYLLTU Â DYNION A BECHGYN"

## Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

Mae Hwb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) Cymru wedi parhau i gyd-arwain y gwaith o weithredu Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma trwy ddarparu gwybodaeth, adnoddau ac arweiniad i dros 50 o sefydliadau a sectorau allweddol fel addysg a chyfiawnder troseddol ar weithredu'r Pecyn Cymorth sy'n Ystyriol o Drawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae'r Uned Atal Trais wedi bod yn bwrw ymlaen â gweithredu Fframwaith Cymru Heb Drais ac wedi datblygu Pecyn Cymorth Ymgysylltu â Dynion a Bechgyn i ddarparu ystod o wybodaeth hygyrch ar gyfer deall, cefnogi ac asesu'n feirniadol y rôl y gall rhaglenni sy'n ymgysylltu â dynion a bechgyn ei chwarae wrth atal trais.

## **Astudiaeth achos:** Cryfhau cysylltiadau cymunedol i wella iechyd a llesiant yng Nghymru

### Y Cefndir

Mae cysylltiadau cymdeithasol yn chwarae rhan hanfodol yn ein hiechyd a'n llesiant a gallant fod yn ffactor sy'n cyfrannu at brofiad rhai pobl o ddeilliannau iechyd gwaeth nag eraill.

### Sefyllfa

Rhaid inni amddiffyn a hyrwyddo cysylltiadau cymdeithasol cryfach mewn byd sy'n newid yn gyflym er mwyn gwella iechyd a llesiant i bawb yng Nghymru. Mae pobl yn byw'n hirach ac yn cael llai o blant nag mewn cenedlaethau blaenorol. Mae maint teulu cyfartalog y DU wedi bod yn lleihau'n gyson – o 1.91 o blant fesul menyw yn 2010 i 1.49 yn 2022, gyda rhagamcaniadau yn awgrymu y gallem hefyd weld mwy o aelwydydd aml-genhedlaeth ac un person. Er y gallai byw gydag aml-genhedlaeth gyfrannu at fanteision fel mwy o sicrwydd ariannol a mwy o adnoddau ar gyfer gofal plant a'r henoed, mae risg y gallai teuluoedd mwy difreintiedig gael eu gorfodi i sefyllfaoedd lle mae cartrefi'n orlawn ac o dan straen. Gallai aelwydydd un person brofi mwy o ynysu, o gymharu.

### Gwnaethon ni

Archwiliodd 'Gadael neb ar ôl', sef adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, rai o effeithiau posibl tueddiadau'r dyfodol ar ein cysylltedd cymdeithasol a'n rhwydweithiau cymunedol. Ystyriodd yr adroddiad dueddiadau fel ein poblogaeth sy'n heneiddio, newid yng nghyfansoddiadau teuluoedd, ehangu cymunedau ar-lein, a dyfodol gwaith, er mwyn asesu sut y gallai'r rhain effeithio ar ein hiechyd a'n llesiant. Ochr yn ochr â'r adroddiad, cynhaliwyd gweminar mewn partneriaeth â Chanolfan The Hive, Grŵp Pobl, yng Nghasnewydd a'r Arweinydd Heneiddio'n Dda yn Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Cyflwynwyd gweithdy ar ddyfodol cysylltedd cymdeithasol yng Nghynhadledd Flynyddol Grŵp Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru.

### Effaith

Ymgysylltiad da â'r cyfryngau gan gynnwys Newyddion Chwech ITV Wales, Global Radio, BBC Radio Cymru ac adroddiadau mewn papurau newydd lleol. Defnyddiwyd canfyddiadau'r adroddiad i lywio ein gwaith i gefnogi Polisi Cymunedau Llywodraeth Cymru. Helpodd yr adroddiad i feithrin perthnasoedd ystyrlon â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y Comisiynydd Pobl Hŷn a grwpiau tai a chymunedol.

# **BLAENORIAETH STRATEGOL TRI:** HYRWYDDO YMDDYGIADAU IACH

**Mae hyrwyddo ymddygiadau iach yn cwmpasu gweithgarwch i leihau baich clefydau, anabledd a marwolaethau cynnar sy'n deillio o ddefnyddio tybaco, ein diet, pa mor egnïol ydym ni a ph'un a ydym ni'n defnyddio alcohol a sylweddau eraill, a sut rydym ni'n eu defnyddio.**

risgiau ymddygiadol yn cyfrannu at

**25%**

o'r blynyddoedd o fywyd a gollir oherwydd marwolaethau cynamserol (YLLs)

Mae'r amcangyfrifon diweddaraf o Astudiaeth Baich Clefydau Byd-eang yn dangos bod risgiau ymddygiadol yn cyfrannu at 25% o'r blynyddoedd o fywyd a gollir oherwydd marwolaethau cynamserol (YLLs) a blynyddoedd byw gydag anabledd (YLDs) oherwydd clefydau anhrosglwyddadwy yng Nghymru, sy'n cynnwys Canser, Clefyd y Galon a Chlefydau Anadlol. O'r risgiau ymddygiadol hyn, tybaco sy'n cyfrannu fwyaf (10%), yna diet (8%). Yn ogystal, mae BMI uchel yn gyfrifol am 8% arall. Mae baich cynyddol clefydau anhrosglwyddadwy yn fygythiad sylweddol i gynaliadwyedd ein system iechyd a gofal. Rydym wedi sefydlu Rhaglen Cyffredinrwydd Clefydau sy'n ein galluogi i nodi tueddiadau mewn clefydau, yn enwedig clefydau anhrosglwyddadwy. Y rhagamcanion a'r data cyntaf o'r Rhaglen ar Ddiabetes oedd yr ysgogiad i greu ein rhaglen Datrys Diabetes Gyda'n Gilydd a bydd gwaith pellach yn dylanwadu'n uniongyrchol ar sut rydym yn llunio ac yn adnewyddu ein Rhaglenni i ddiwallu proffil newidiol iechyd a chlefydau yng Nghymru.

Mae ein hymddygiadau wedi'u cysylltu'n agos â'r ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a amlinellwyd mewn blaenoriaethau cynharach. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r ymddygiadau, gwelwn raddiant economaidd-gymdeithasol clir (mae gan y bobl hynny sydd â llai o fantais o ran statws economaidd-gymdeithasol iechyd gwaeth na'r bobl sydd â mwy o fantais); mae'r graddiannau hyn yn fwy cyffredin ymhlith grwpiau yn y boblogaeth sy'n profi anfantais. Y ffactorau hyn yw un o'r prif fecanweithiau y mae'r penderfynyddion ehangach yn arwain at afiechyd ac anghydraddoldebau iechyd drwyddynt. Mae ffactorau ymddygiadol hefyd yn chwarae rhan yn yr amodau sy'n arwain at anabledd, fel clefydau cyhyrysgerbydol a chamddefnyddio sylweddau.  Un o'r risgiau ymddygiadol sy'n dod i'r amlwg i iechyd a llesiant yw gamblo, a fydd yn ffocws cynyddol dros y tair blynedd nesaf.

Mae rhagor o wybodaeth am y flaenoriaeth hon ar gael yn ein Strategaeth Hirdymor.



Mae hunanatgyfeiriadau i'r gwasanaeth Helpa Fi i Stopio (HMQ)

8%

yn uwch na'r llynedd

## Yr hyn a gyflawnwyd gennym

### Rhoi'r gorau i ysmygu

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'n partneriaid system ehangach i wneud y gorau o'r cyfle a gyflwynir gan y ddeddfwriaeth ar dybaco a fepio yng Nghymru ac ar draws y DU, a fydd yn gam mawr ymlaen tuag at wireddu ein huchelgais, sef Cymru Ddi-fwg erbyn 2030. Rydym wedi gweithio gyda Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd mewn Byrddau Iechyd i adolygu system rhoi'r gorau i ysmygu Helpa Fi i Stopio er mwyn i ni allu harneisio potensial rhoi'r gorau i ysmygu i leihau baich clefydau ac afiechydon o ganlyniad i dybaco i unigolion ac i'r system iechyd a gofal fel elfen allweddol o'n newid i atal.

Mae hunanatgyfeiriadau i'r gwasanaeth Helpa Fi i Stopio (HMQ) 8% yn uwch na'r llynedd ac ar y ffordd i gyrraedd y nifer uchaf eto yn 2024/25. Mae'r twf hwn wedi'i yrru gan lwyddiant ymgyrch Teimla'r Gwahaniaeth, yn ogystal â diweddariad mawr i ryngwyneb y defnyddwyr a chynnwys y wefan ym mis Ionawr 2025. Datblygom bartneriaeth ag academyddion Prifysgol Sheffield i gynyddu ein gallu i fodelu effaith bosibl ystod o fesurau polisi yn y dyfodol yn gysylltiedig ag ysmygu ac i archwilio effaith bosibl rheolaethau prisiau ar ysmygu. Rydym wedi parhau â'n gwaith i leihau effaith ysmygu yn ystod beichiogrwydd ac i wneud y gorau o gysylltiadau â gofal iechyd i hyrwyddo ymgais i roi'r gorau iddi.

### Diabetes

Mewn ymateb i'r ffigurau llym a'r rhagamcaniadau at y dyfodol am y cynnydd mewn diabetes yng Nghymru sy'n deillio o'n rhaglen Cyffredinolrwydd Clefydau, rydym wedi sefydlu Datrys Diabetes Gyda'n Gilydd, sef Rhaglen sy'n dwyn partneriaid allweddol o bob cwr o'r system ynghyd i wella deilliannau i bobl sy'n byw gyda Diabetes (Mathau 1 a 2) ac atal y cynnydd yn nghyffredinrwydd Diabetes Math 2 erbyn 2028. Saif y gwaith hwn ar draws y Flaenoriaeth Strategol hon a, hefyd, Blaenoriaeth Strategol Pedwar, sy'n canolbwyntio ar gefnogi datblygiad system iechyd a gofal gynaliadwy.

## Camddefnyddio Sylweddau

Yn ystod 2024/25, gwnaethom asesiad helaeth o anghenion ar niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau yng Nghymru ac rydym bellach yn datblygu dull traws-sefydliadol i sicrhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn canolbwyntio ar wneud y mwyaf o'i effaith yn y maes hwn.

Rydym wedi datblygu pecyn e-ddysgu i hyrwyddo'r defnydd o ymyriadau byr ar alcohol a'r defnydd o offer asesu risg, y dangoswyd eu bod yn arbed arian i'r GIG. Rydym wedi gweithio'n agos i gefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynigion ar gyfer lleihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yng Nghymru sy'n deillio o gyflwyno'r Ardoll Gamblo yn 2025.

## Pwysau Iach

Mae ein rôl mewn gweithredu Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach Llywodraeth Cymru wedi parhau, gan hwyluso'r gwaith o fabwysiadu dull system gyfan gan gynnwys datblygu nodau a dangosyddion a fydd yn helpu i hoelio sylw camau gweithredu a galluogi mesur effaith. Rydym wedi parhau â'n gwaith i sicrhau'r effaith orau o Lwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan, gan gynnwys cynghori ar rôl ystod gynyddol o feddyginiaethau colli pwysau.

Mae gwefan 'Pwysau Iach Byw'n Iach' wedi parhau i gynyddu nifer ei defnyddwyr gan gyrraedd carreg filltir arwyddocaol o 200,000 o ddefnyddwyr sydd wedi ymweld â'r wefan ers ei lansio, gydag 84% o ddefnyddwyr yn dweud ei bod yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. Ar ddod y mae ein cynorthwyydd digidol sy'n gosod nodau a'n hasesiad iechyd wedi'i ddiweddaru ac, ar ôl eu lansio, byddant yn rhoi mwy o reolaeth i ddefnyddwyr dros eu taith rheoli pwysau. Denodd yr ymgyrch Ailosod Eich Meddylfryd ym mis Mai 2024 18,000 o ddefnyddwyr newydd a'r nifer uchaf o ymwelwyr sy'n dychwelyd ers ei lansio. Ym mis Tachwedd, enillodd Wobr Aur am Fideo'r Flwyddyn yng Ngwobrau CIPR.

200,000 o ddefnyddwyr sydd wedi ymweld â'r wefan ers ei lansio

**84%**

o ddefnyddwyr yn dweud ei bod yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn.

Rydym wedi cynnal gwerthusiadau proses o'r Dull System Gyfan ar gyfer Pwysau Iach a'r Cynlluniau Peilot Plant a Theuluoedd fel y gallwn wneud argymhellion ar y camau nesaf ar gyfer y ddwy raglen hyn. Rydym wedi parhau â'n gwaith i gefnogi gweithredu Cynllun Gweithredu Bwydo ar y Fron ac i ddatblygu opsiynau ar gyfer cynllun gweithredu newydd ar fwydo babanod yng Nghymru. Rydym hefyd wedi cefnogi'r adolygiad o'r safonau maeth a bwyd ar gyfer prydau ysgol yng Nghymru.

> "RYDYM HEFYD WEDI CEFNOGI'R ADOLYGIAD O'R SAFONAU MAETH A BWYD AR GYFER PRYDAU YSGOL YNG NGHYMRU"

## Gweithgarwch Corfforol

Rydym yn parhau i gydnabod y cyfleoedd y mae'r diwrnod ysgol yn eu cynnig i gynyddu gweithgarwch corfforol drwy gam nesaf ein hymagwedd seiliedig ar le at deithio llesol i'r ysgol. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi cefnogi dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd a lles drwy ddatblygu pecynnau cymorth y cwricwlwm ar gyfer ysgolion mewn meysydd allweddol a chynnig set o safonau gofynnol sy'n cael eu mireinio ar hyn o bryd drwy ymgysylltu ag ysgolion. Ailsefydlwyd rhaglen Byw Bywyd yn llawn ar ôl y pandemig a'i chyflwyno i'r ysgolion y nodwyd mai nhw oedd â'r angen mwyaf fel rhan o'n gwaith i leihau anghydraddoldebau mewn deilliannau ysmygu.

## Gweithle iach

Mae rhaglen Cymru Iach ar Waith wedi parhau i weithredu'r model cyflawni digidol newydd trwy ddatblygu gwefan newydd a chyflwyno nifer o becynnau e-ddysgu a gweminarau.

Er mwyn cefnogi'r GIG i symud tuag at atal, fe wnaethom ailsefydlu rhaglen Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC) le-dled Cymru i sicrhau y gallai cynifer o bobl â phosibl elwa o Raglen Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff Cymru. Fe wnaethon ni hefyd ailsefydlu Ychwanegu at Fywyd ac rydym yn parhau i weithio gyda Byrddau Iechyd i ddefnyddio'r offeryn hwn fel rhan o'r gwaith i atal datgyflyru a chefnogi pobl i aros mewn gwaith neu ddal ati i fod yn economaidd weithgar wrth aros am driniaeth a gofal y GIG.

Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn nodi cyfleoedd ar gyfer platfformau a datrysiadau digidol ac yn mynd ar drywydd y rhain i alluogi mwy o ddefnydd ohonynt a mwy o ddylanwad ar ein poblogaeth, a gweld buddion newid i wneud mwy o ddefnydd o ddatrysiadau digidol er iechyd gwell.

# **BLAENORIAETH STRATEGOL PEDWAR:** CEFNOGI DATBLYGU SYSTEM IECHYD A GOFAL CYNALIADWY SY'N CANOLBWYNTIO AR ATAL AC YMYRRAETH GYNNAR

**Nod *'Cymru Iachach'* yw i bawb yng Nghymru fyw bywyd hir, iach a hapus. Mae'n gosod y cyfeiriad polisi ar gyfer y system iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu modelau gofal cynaliadwy.**

Mae gofal iechyd cynaliadwy yn golygu darparu gofal o ansawdd uchel heb niweidio'r amgylchedd, bod yn fforddiadwy nawr ac yn y dyfodol, a chyflawni effeithiau cymdeithasol cadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys symud gwasanaethau o ysbytai i gymunedau lle y bo'n briodol, gwella'r gwaith o ganfod ac atal afiechydon yn gynnar, a helpu pobl i reoli eu hiechyd a'u cyflyrau hirdymor. Mae hefyd yn canolbwyntio ar ei gwneud hi'n haws i bobl barhau i fod yn egnïol ac yn annibynnol yn eu cartref a'u cymuned.



Mae'r galw cynyddol am ofal iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru sy'n deillio o boblogaeth sy'n heneiddio, anghydraddoldebau iechyd, ymddygiadau sy'n niweidio iechyd, a phenderfynyddion amgylcheddol a chymdeithasol yn pwysleisio'r angen am ofal iechyd cynaliadwy. Mae'r ffactorau hyn wedi creu pwysau sylweddol ar y system iechyd a gofal, gan effeithio ar fynediad at driniaeth amserol, achosi niwed y gellir ei osgoi, ac effeithio ar ddeilliannau cyffredinol.

Er gwaethaf y pwysau uniongyrchol hyn, mae'n hanfodol canolbwyntio ar atal, ymyrraeth gynnar a thegwch i ddatblygu modelau gofal cynaliadwy sy'n diwallu anghenion y boblogaeth nawr ac yn y dyfodol, yn lleihau niwed, yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, ac yn gwella deilliannau.

Mae ein gweithlu yn bwysig nid yn unig oherwydd eu rôl arwyddocaol mewn deilliannau iechyd gwell i bawb ond hefyd oherwydd y bydd gweithlu gofal iechyd sydd mor iach â phosibl yn dod â manteision i'w hunain, i'r GIG ac i bawb sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG. Trwy weithio gyda'n gilydd, rydym yn asesu'r camau y gallant eu cymryd yn unigol ac ar y cyd i ymgorffori atal yn ein gweithlu.

Mae rhagor o wybodaeth am y flaenoriaeth hon ar gael yn ein Strategaeth Hirdymor.

> "DROS Y FLWYDDYN DDIWETHAF, FE WNAETHOM ADEILADU MOMENTWM SYLWEDDOL I SYMUD TUAG AT DDULL SY'N CANOLBWYNTIO AR ATAL"

## Yr hyn a gyflawnwyd gennym

### Gwreiddio Atal

Dros y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethom adeiladu momentwm sylweddol i symud tuag at ddull sy'n canolbwyntio ar atal ar draws y system iechyd a gofal yng Nghymru. Lansiwyd y Fframwaith Iechyd a Gofal Seiliedig ar Atal ochr yn ochr â grŵp llywio i arwain y newid hwn.

Mae Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan (AWDPP) yn parhau i ddangos canlyniadau cadarnhaol, gyda bron i 10,000 o bobl yn mynychu ymgynghoriadau. Cyhoeddwyd pecyn cymorth tegwch ac adroddiad ar brofiad defnyddwyr y gwasanaeth hefyd i asesu effaith y rhaglen.

Fe wnaeth Rhaglen Atal Gordewdra Gofal Sylfaenol ddatblygu Rhaglen Iechyd a Llesiant Ôl-enedigol mewn partneriaeth â'r Rhwydwaith Iechyd Menywod.

Roedd ymdrechion o dan y rhaglen atal Clefyd Cardiofasgwlaidd (CVD) wedi cynnwys adolygiad o wiriadau iechyd a chynigion ar gyfer prosiect gwella ansawdd mewn gofal sylfaenol.

I ymateb i'r ffigurau llym a'r rhagamcaniadau yn y dyfodol o gynnydd mewn diabetes yng Nghymru, fe wnaethom sefydlu Datrys Diabetes Gyda'n Gilydd, sef Rhaglen sy'n dwyn ynghyd bartneriaid allweddol o bob cwr o'r system i wella deilliannau i bobl sy'n byw gyda Diabetes (Mathau 1 a 2) ac atal y cynnydd yng nghyffredinrwydd Diabetes Math 2 erbyn 2028.

> "MAE FFOCWS CRYF WEDI'I OSOD AR LEIHAU ANGHYDRADDOLDEBAU IECHYD DRWY OFAL SYLFAENOL"

## Gofal Sylfaenol

Mae ffocws cryf wedi'i osod ar leihau anghydraddoldebau iechyd drwy ofal sylfaenol. Roedd y camau gweithredu allweddol yn cynnwys cyd-gynhyrchu fframwaith consensws ar gyfer gweithredu gyda gweithwyr proffesiynol a chydweithio â phartneriaid i greu fframwaith addysg aml-broffesiwn ar anghydraddoldebau iechyd ac iechyd cynhwysiant, gydag adnoddau, a oedd ar gael ar wefan Gofal Sylfaenol Un i gefnogi'r gwaith o'u gwreiddio yn ymarferol.

Mae'r gwerthusiad cenedlaethol o Fodel Gofal Sylfaenol Cymru yn parhau, gan gynnwys adolygiadau gan gymheiriaid clwstwr a chylchoedd hunanfyfyrio, gyda dangosyddion allweddol yn cael eu datblygu i fesur cynnydd y system. Lansiwyd porth cynllunio clwstwr ar wefan Gofal Sylfaenol Un i gynorthwyo gyda chynllunio gweithgareddau.

Ym maes gofal deintyddol, mae cydlynu rhaglenni fel Cynllun Gwên ac archwiliadau iechyd deintyddol plant yn genedlaethol oll yn anelu at atal pydredd dannedd mewn plant. Aeth gwaith cydweithredol gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ati i wella iechyd y geg preswylwyr cartrefi gofal. Cynhaliwyd digwyddiadau hyfforddi a graddnodi ar gyfer y Rhaglen Epidemioleg Ddeintyddol, a darparodd Uned Gwybodaeth Iechyd y Geg Cymru adnoddau ac adroddiadau i randdeiliaid.

Fe wnaethon ni gefnogi Rhaglen Diwygio Deintyddol Llywodraeth Cymru, eiriol dros system gofal deintyddol ataliol sy'n seiliedig ar angen, a gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) ar Hunanasesiad Ansawdd blynyddol ar gyfer Byrddau Iechyd a phractisau deintyddol.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda ffocws ar ddulliau gwerth cymdeithasol sydd wedi cynnwys darparu hyfforddiant ar asesu effaith llesiant a chreu pecyn cymorth i helpu i symud cyllidebau'r GIG tuag at atal.



## Diogelu

Eleni, mae Gwasanaeth Diogelu'r GIG wedi parhau â'i rôl strategol wrth gydlynu Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru a chyhoeddi ei adroddiad blynyddol, gan rannu dysgu o welliannau ansawdd ac arloesiadau. Un ffocws allweddol fu mynd i'r afael â themâu diogelu mynych trwy ddulliau dysgu arloesol. Mae digwyddiadau amlasiantaeth ar Chwilfrydedd Proffesiynol a Chlywed Llais Oedolion mewn Perygl wedi mynd i'r afael â heriau o ran amddiffyn unigolion rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

Drwy bwysleisio arfer sy'n canolbwyntio ar y person, cymhwyso dull sy'n seiliedig ar wyddoniaeth ymddygiadol, ac annog her adeiladol, mae GIG Cymru yn cryfhau arferion diogelu ac yn gyrru gwelliannau ystyrlon mewn gwneud penderfyniadau ac ymgysylltu rheng flaen.

Mae ein gwaith Gofal Sylfaenol Gwyrddach yn parhau i fynd o nerth i nerth

**500**

o bractisau yn cymryd rhan ac adroddiadau am dros 4,200 o gamau gweithredu

## Cynaliadwyedd

Rydym yn parhau i gadeirio'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cenedlaethol Datgarboneiddio: Defnyddio a Gwaredu Anadlyddion, ac rydym wedi darparu dull cydlynol, goruchwyliaeth genedlaethol, mewnbwn a chefnogaeth i fynd i'r afael â defnyddio a gwaredu anadlyddion yng Nghymru a ledled y DU. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn y defnydd o anadlyddion sydd â photensial uchel o ran cynhesu byd-eang ac rydym wedi nodi meysydd i'w gwella wrth reoli cyflyrau anadlol.

Mae ein hymdrechion i gynorthwyo gofal sylfaenol i fod yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol a chyflawni'r uchelgais Sero Net wedi cael eu cydnabod trwy ennill yng Ngwobrau Cynaliadwyedd GIG Cymru 2024 a Gwobrau Fferylliaeth Cymru 2024.

Mae ein gwaith Gofal Sylfaenol Gwyrddach yn parhau i fynd o nerth i nerth gyda thros 500 o bractisau yn cymryd rhan ac adroddiadau am dros 4,200 o gamau gweithredu sy'n ystyriol o'r hinsawdd ers sefydlu Fframwaith a Chynllun Gwobrau Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru yn 2022.

# **BLAENORIAETH STRATEGOL PUMP:** DARPARU GWASANAETHAU IECHYD Y CYHOEDD RHAGOROL I AMDDIFFYN Y CYHOEDD A SICRHAU'R CANLYNIADAU GORAU POSIBL O RAN IECHYD Y BOBLOGAETH

**Mae amddiffyn y cyhoedd rhag effeithiau heintiau ac amlygiad i niwed amgylcheddol, fel llygredd aer, a chyflwyno ein rhaglenni sgrinio cenedlaethol yn gyfrifoldebau craidd i Iechyd Cyhoeddus Cymru.**

Fel ymatebydd Categori 1 y Ddeddf Argyfyngau Sifil, rydym yn cydweithio ag eraill i ddiogelu'r cyhoedd rhag clefydau heintus difrifol a risgiau amgylcheddol trwy gynllunio at argyfyngau, parodrwydd, a chamau ymateb cadarn. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a all godi o fygythiadau i ddiogelu iechyd, statws iechyd presennol y boblogaeth, a phenderfynyddion ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd.

Rydym yn cymryd rhan mewn ymdrechion dan arweiniad Prif Swyddog Meddygol Cymru i gryfhau'r system diogelu iechyd. Mae hyn yn cynnwys gwaith â ffocws ar lefel Cymru a'r DU i ddysgu gwersi o'r ymateb i COVID-19, gweithredu argymhellion o'r Ymchwiliad Cyhoeddus i COVID-19, a gwella cynllunio a pharodrwydd ar gyfer pandemigau yn y dyfodol. Rydym yn darparu arweinyddiaeth system i gryfhau'r system diogelu iechyd ymhellach, gan gynnwys gwaith amlasiantaeth i weithredu gwersi o'r ymateb a'r Ymchwiliad Cyhoeddus i COVID-19.

Rydym wedi parhau i gefnogi Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19 y DU drwy gynhyrchu tystiolaeth tystion, tystiolaeth ddogfennol a thystiolaeth lafar mewn Gwrandawiadau Cyhoeddus yn erbyn meysydd y 10



modiwl. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae ein Tîm Ymateb i Ymchwiliadau Cyhoeddus yn gweithio gyda'n tîm cyfreithiol allanol i fodloni gofynion yr Ymchwiliad am dystiolaeth.

Maent hefyd yn cydlynu ac yn cefnogi ein staff i gynhyrchu a rhoi tystiolaeth i'r Ymchwiliad. Ar ôl cyhoeddi adroddiadau modiwlau, byddwn yn sicrhau bod yr adroddiadau'n cael eu hystyried yn fanwl, bod argymhellion yn cael eu hystyried, a bod dysgu sefydliadol yn cael ei gofnodi a'i weithredu o fewn ein proses cynllunio parodrwydd ar gyfer argyfyngau. Drwy wneud hyn, rydym yn sicrhau bod yr Ymchwiliad yn gallu gwneud argymhellion priodol sy'n sbarduno gwelliannau i'n hymateb parodrwydd ar gyfer argyfyngau lle bo angen.

> "GAN GEFNOGI'R SYSTEM IECHYD AR DRAWS CYMRU, RYDYM YN CYNNIG GWASANAETHAU DIOGELU IECHYD, LABORDY, CLEFYDAU HEINTUS CLINIGOL, GENOMEG PATHOGENAU A RHEOLI HEINTIAU YN GENEDLAETHOL"

Gan gefnogi'r system iechyd ar draws Cymru, rydym yn cynnig gwasanaethau diogelu iechyd, labordy, clefydau heintus clinigol, genomeg pathogenau a rheoli heintiau yn genedlaethol. Rydym yn cyflwyno, yn monitro ac yn gwerthuso saith rhaglen sgrinio'r boblogaeth ac yn cydlynu'r rhwydwaith clinigol a reolir ledled Cymru ar gyfer sgrinio cyn geni. Nod y Rhaglenni hyn yw lleihau nifer yr achosion o glefydau neu wella diagnosis cynnar er mwyn lleihau effaith y clefyd. Mae ein gwasanaethau sgrinio yn parhau i archwilio a mabwysiadu datblygiadau technolegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella dulliau cyflenwi gwasanaethau.

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) (2020) yn pwysleisio'r Ddyletswydd Ansawdd i ddarparu gofal iechyd diogel, effeithiol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, amserol, effeithlon a theg o fewn diwylliant dysgu. Mae darparu gwasanaeth o ansawdd rhagorol ac ymdrechu i wneud gwelliannau parhaus yn hanfodol. Mae hyn yn cynnwys datblygu rhaglenni newydd neu ddefnyddio offer a thechnolegau arloesol i ddeall bygythiadau ac ymateb iddynt yn well, gan gefnogi pobl i fyw bywydau hirach ac iachach yn y pen draw. Nod Iechyd Cyhoeddus Cymru yw cyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Cymru drwy ganolbwyntio ar degwch i leihau anghydraddoldebau iechyd a chefnogi pawb yng Nghymru i fyw bywydau iachach a hirach. Mae canser yn un o brif achosion marwolaeth yng Nghymru, gyda llawer o ganserau yn gallu cael eu hiacháu os cânt eu canfod yn gynnar a'u trin yn effeithiol. Rydym yn cefnogi atal sylfaenol trwy frechiadau HPV ac yn darparu tair rhaglen sgrinio canser i'r boblogaeth. Mae Llywodraeth

Cymru wedi gofyn i Iechyd Cyhoeddus Cymru bwyso a mesur a gwerthuso opsiynau ar gyfer rhaglen sgrinio canser yr ysgyfaint wedi'i thargedu at unigolion uchel eu risg sydd rhwng 55 a 74 oed. Mae rhagor o wybodaeth am y flaenoriaeth hon ar gael yn ein Strategaeth Hirdymor.

## Yr hyn a gyflawnwyd gennym

### Diogelu Iechyd

Dros y 12 mis diwethaf, un o gampau nodedig y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy (VPDP) fu lansio rhaglen frechu'r Feirws Syncytiol Anadlol (RSV) ar draws Cymru, gan dargedu unigolion 75-79 oed a menywod beichiog gyda'r nod o leihau baich RSV yn sylweddol bob hydref. Mae datblygiad y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol wedi parhau, gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn arwain y gwaith o greu safonau cenedlaethol newydd ar gyfer gwybodaeth i gleifion am frechlynnau ac ystorfa ar gyfer tystiolaeth ac arferion da.

Rydym wedi cynorthwyo Llywodraeth Cymru â drafftio'r Fframwaith Diogelu Iechyd Cenedlaethol ac wedi cyhoeddi adroddiadau allweddol ar farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau, firysau a gludir yn y gwaed, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, ac ansawdd aer yn Withyhedge.

Mae ymdrechion cydweithredol gyda gwahanol raglenni wedi galluogi derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau oherwydd heintiau anadlol ymhlith preswylwyr cartrefi gofal i gael eu modelu. Cafodd ein hymdrechion cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu eu cydnabod gyda dwy wobr yng Ngwobrau DARE Cymru y Gymdeithas Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu ar gyfer ymgyrchoedd HIV.

### **Astudiaeth Achos** – Lansio 'Canllaw Arfer Gorau' Rhaglen Anghydraddoldebau Diogelu Iechyd

Ym mis Ebrill 2025, lansiodd y Rhaglen Anghydraddoldebau Diogelu Iechyd (HPIP) eu 'Canllaw Arfer Gorau'. Mae'r canllaw hwn yn cynnig set o egwyddorion arweiniol, astudiaethau achos, offer ymarferol ac adnoddau cymorth i helpu arbenigwyr diogelu iechyd a chynllunio argyfyngau i ddisgrifio a lliniaru anghydraddoldebau trwy eu gwaith a gwerthuso effeithiau gweithredu. Mae'r canllaw wedi cael ei hyrwyddo drwy sesiwn hyfforddi ffurfiol lle daeth dros 100 o gydweithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghyd i ddysgu am y canllaw a sut i'w wreiddio yn eu gwaith. Mae'r canllaw hefyd yn cael ei ddefnyddio i lywio gwaith ehangach ar anghydraddoldebau iechyd ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru. Wrth edrych tua'r dyfodol ym maes gwasanaethau diogelu iechyd a chynllunio at argyfyngau, bydd HPIP a'r canllaw yn rhan o'r rhaglen ymsefydlu i bob dechreuwr newydd er mwyn iddynt sicrhau ymwybyddiaeth gynnar, gyffredin o bwysigrwydd mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ym mhopeth a wnawn.

## Gwasanaethau Heintiau

Rydym wedi cryfhau ein mesurau rheoli drwy achrediad llwyddiannus ISO 15189 ar draws rhwydwaith labordai diagnostig cyfan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae gwasanaethau heintiau wedi cael eu cydnabod gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) Porton Down am weithredu ymateb rhwydwaith gyfan i dwymynau gwaedlifol firaol posibl yn llwyddiannus. Yn ogystal, o fewn pedair wythnos i'r hysbysiad, fe wnaethom ddatblygu teipio Clade Brech M ledled Cymru.

Mae ein Huned Genomeg Pathogenau (PenGU) wedi ymgymryd â gwaith datblygu ar gyfer gwasanaethau newydd sy'n cwmpasu Brech M, y Feirws Syncytiol Anadlol (RSV), a Bacteria Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (AMR). Mae PenGU wedi chwarae rhan allweddol wrth weithio gyda'r Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn i ddarparu capasiti gweithredu cychwynnol i Gonsortiwm Fforensig Microbiaidd y DU, deilliant 11 o Strategaeth Diogelwch Biolegol y DU.



## **Astudiaeth achos:** Mynediad at wasanaethau effeithiol – atal lledaeniad clefydau

### Y Cefndir

Mae brechu ac imiwneiddio yn ffordd bwysig o amddiffyn pobl rhag clefydau heintus. Mae brechlyn MMR yn amddiffyn rhag y frech goch, clwy'r pennau a rwbela, y cymhlethdodau a achosir gan y clefydau hyn a lledaeniad y clefydau hyn yn y gymuned.

### Sefyllfa

Yn ystod pandemig COVID-19, ni welodd Cymru unrhyw achosion o'r frech goch. Dechreuodd nifer yr achosion o'r frech goch gynyddu ar raddfa fyd-eang unwaith y dechreuodd cyfyngiadau'r pandemig lacio, gyda'r potensial i'r frech goch ledaenu yng Nghymru hefyd. Mae canfod achosion yn gynnar yn hanfodol er mwyn osgoi lledaeniad y frech goch yn y gymuned.

### Gwnaethon ni

Rydym wedi targedu gwella nifer y plant oedran ysgol a gweithwyr gofal iechyd sy'n cael eu brechu, gan mai dyma'r meysydd lle mae trosglwyddo yn fwyaf tebygol o ddigwydd. Yn ystod 2024/25, rydym wedi parhau i weithio gyda phartneriaid yr ymgyrch dal i fyny ar gyfer MMR mewn ysgolion. Mae'r ymgyrch hon wedi arwain at ddarparu 1,500 a 1,000 o ddosau cyntaf i blant oedran ysgol gynradd ac ysgol uwchradd yng Nghymru yn y drefn honno. At hynny, rhoddwyd dros 2,000 a 1,000 o ail ddosau i blant oedran ysgol gynradd ac ysgol uwchradd yng Nghymru. Mae hwn yn welliant sylweddol yn y nifer sy'n cael brechiad MMR. Hefyd, rydym wedi cynnal gwaith modelu i nodi'r ardaloedd a'r grwpiau oedran lle y gallai diffyg brechu yng Nghymru arwain at frigiad mawr o achosion, er mwyn cefnogi targedu cam nesaf y gweithgarwch.





## Parodrwydd am Argyfwng

Mae ein hymdrechion parodrwydd, gwydnwch ac ymateb i argyfyngau yn cynnwys sefydlu gwasanaeth ar alw 24/7, cydlynu ymatebion i dros 60 o ddigwyddiadau, a chynnal ymarferion ymateb mawr yn genedlaethol. Rydym hefyd wedi cael ein cydnabod fel rhan o strwythur llywodraethu CONTEST Cymru ac wedi asesu parodrwydd y DU ar gyfer pandemigau.

Yn olaf, rydym wedi datblygu map llwybr strategol i arwain ein gwaith cynllunio, gan ganolbwyntio ar ymgysylltu cydlynedig â phobl yng Nghymru, cryfhau partneriaethau yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a chefnogi gwasanaethau i gyflawni deilliannau yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae'r cyflawniadau hyn yn pwysleisio ein hymrwymiad i wella gwasanaethau iechyd cyhoeddus a'n gweledigaeth strategol ar gyfer y dyfodol.

## Gwasanaethau Sgrinio

Mae swyddogaethau digidol newydd wedi cael eu rhoi ar waith yn ein rhaglenni sgrinio, gan gynnwys elfennau carfan ar gyfer sgrinio'r fron, e-atgyfeiriadau ar gyfer sgrinio llygaid diabetig, a rhannu hanesion sgrinio ar draws ffin Cymru a Lloegr ar gyfer sgrinio serfigol. Mae Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru wedi cyflwyno 40 o gamerâu newydd ar gyfer ffotograffiaeth retinol, sy'n gwella ansawdd y delweddau sy'n cael eu cipio fel y gellir nodi cleifion â retinopathi diabetig yn well.

Mae ein Rhaglen Sgrinio Coluddion Cymru wedi cwblhau'r broses optimeiddio yn llwyddiannus ac mae bellach yn cynnig sgrinio i oedolion 50-75 oed. Mae ein rhaglen Sgrinio'r Fron wedi adfer yn dilyn y saib dros dro o ganlyniad i bandemig COVID. Rydym hefyd wedi cyd-weithio â Phrifysgol Caerdydd i sefydlu partneriaeth i gynnal ymchwil i wella deilliannau ein gwasanaethau sgrinio.

## Degfed Pen-blwydd ein Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru

Ym mis Ebrill 2024, dathlodd Rhaglen Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru (NBSW) ei degfed pen-blwydd fel rhaglen sgrinio genedlaethol. Dros y degawd diwethaf, mae wedi sgrinio mwy na 322,500 o fabanod, gan amlygu dros 600 ohonynt â chyflyrau prin tybiedig ar gyfer diagnosis a thriniaeth arbenigol. Ar 11 Ebrill 2024, dathlodd cynhadledd flynyddol NBSW gyflawniadau cydweithwyr yn GIG Cymru, gan fyfyrio ar gynnydd y rhaglen dros y degawd diwethaf, a thrafod heriau a datblygiadau yn y dyfodol o ran darparu gwasanaeth sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig rhagorol yng Nghymru.

## Genomeg Iechyd y Cyhoedd

Our Public Health Genomics Programme has overseen the formation of a Genomic Epidemiology Unit which has worked to analyse outbreaks and perform genomic surveillance for SARS-CoV-2, Tuberculosis (TB) and HIV.

## Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd, Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a Rhagnodi (HARP)

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae rhaglen HARP wedi cynorthwyo â gweithredu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Ymwrthedd Gwrthficrobaidd y DU (2024–2029) yng Nghymru drwy gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, grwpiau goruchwylio cenedlaethol, a chefnogaeth uniongyrchol i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau. Roedd hyn yn cynnwys goruchwylio a dadansoddi defnydd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd, datblygu canllawiau stiwardiaeth ac Atal a Rheoli Heintiau (IPC), a chynnal a chadw Llawlyfr IPC Cenedlaethol Cymru.

Mae cefnogaeth barhaus wedi bod ar gyfer rheoli brigiadau o achosion a dadansoddi epidemiolegol trwy'r Rhwydwaith Epidemioleg Gofal Iechyd. Hefyd, cyflwynodd y rhaglen adroddiadau rheolaidd ar heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a heintiau clwyfau llawfeddygol yn ystod 2024 ac maent wedi ymrwymo i weithio gyda thîm Diogelwch a Gwella Ansawdd Gweithrediaeth y GIG ar gydweithrediad i leihau heintiau Clostridioides difficile yn ystod 2025/26.

sgrinio mwy na

**322,500**

o fabanod, gan amlygu dros 600 ohonynt â chyflyrau prin tybiedig ar gyfer diagnosis a thriniaeth arbenigol.

# **BLAENORIAETH STRATEGOL CHWECH:** MYND I'R AFAEL AG EFFEITHIAU NEWID YN YR HINSAWDD AR IECHYD Y CYHOEDD

**Cydnabyddir mai'r newid yn yr hinsawdd yw bygythiad mwyaf arwyddocaol y ganrif i iechyd cyhoeddus, gan beryglu iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant. Mae'n bygwth pob agwedd ar fywyd sy'n effeithio ar ein gallu i gyflawni a chynnal iechyd da.**

Yn 2019, datganodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd i Gymru ac ym mis Hydref 2021, datganodd Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) mai newid hinsawdd oedd y bygythiad iechyd unigol mwyaf sy'n wynebu dynoliaeth.

Mae effeithiau'r newid hinsawdd yn amlochrog, gan effeithio ar benderfynyddion cymdeithasol ac amgylcheddol iechyd (aer glân, diogelwch bwyd, cartrefi diogel, a mynediad at wasanaethau). Mae effeithiau'r newid hinsawdd eisoes yn cael eu teimlo yng Nghymru, o ran bygythiadau ffisegol i fywyd trwy ddigwyddiadau tywydd eithafol, yn ogystal â gorbryder sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Yn fyr, mae'r newid hinsawdd eisoes yn effeithio'n andwyol ar iechyd pobl yng Nghymru a bydd yn parhau i wneud hynny ymhell i'r dyfodol.



Gwyddom fod effeithiau'r newid hinsawdd yn debygol o effeithio'n fwy andwyol ar rai cymunedau yng Nghymru nag eraill, a bod rhai cymunedau yn llai tebygol o allu gweithredu i ymateb i'r effeithiau hyn, er enghraifft, aelwydydd incwm is a'r rhai sy'n byw ag anableddau a/neu gyflyrau cronig sy'n byw mewn ardaloedd sy'n dueddol o ddioddef llifogydd. O'r herwydd, mae'n debygol y bydd effeithiau'r newid hinsawdd yn gwaethygu'r anghydraddoldebau iechyd presennol yng Nghymru ymhellach. Rhaid i ni ganolbwyntio ar sicrhau bod polisïau ac ymyriadau addasu effeithlon a theg ar waith sy'n helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd.

Rydym wedi nodi sawl elfen lle mae gennym rôl i'w chwarae wrth gefnogi agenda'r newid hinsawdd a chynaliadwyedd, gan gynnwys datblygu, deall a dehongli'r dystiolaeth i lywio camau gweithredu, darparu ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a darparu cyngor technegol integredig i bartneriaid. Mae hyn yn cynnwys swyddogaethau allweddol megis cyngor polisi, newid ymddygiad, cyfathrebu, gwyliadwriaeth ac arweiniad.

Mae rhagor o wybodaeth am y flaenoriaeth hon ar gael yn ein Strategaeth Hirdymor.



“

MAE EIN HWB IECHYD A CHYNALIADWYEDD WEDI PARHAU I GEFNOGI GWEITHREDU, MEITHRIN GALLU, YSBRYDOLI AC ADDYSGU DRWY GYDOL Y FLWYDDYN DDIWETHAF

”

## Yr hyn a gyflawnwyd gennym

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi cymryd camau breision o ran cryfhau partneriaethau allanol, gwella galluoedd gwyliadwriaeth, hyrwyddo ymchwil, a meithrin gallu ym meysydd yr hinsawdd ac iechyd.

Mae ein cydweithrediad ag Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) ac Iechyd Cyhoeddus yr Alban wedi arwain at gytundeb ar gysoni metrigau a dulliau gwyliadwriaeth, ac mae fframwaith gweithredu Cymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (IANPHI) wedi darparu sylfaen gadarn ar gyfer ein map llwybr strategol.

Rydym hefyd wedi ymgysylltu â phartneriaid byd-eang allweddol, gan gynnwys Sefydliad Iechyd y Byd, gan ehangu ein cydweithrediadau academaidd.

O ran gwyliadwriaeth, mae lansio is-grŵp pwrpasol o fewn Bwrdd y Rhaglen Newid Hinsawdd wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu system gwyliadwriaeth hinsawdd ac iechyd i Gymru.  Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cysoni ein hymdrechion gwyliadwriaeth yn rhyngwladol a meithrin partneriaethau academaidd â Phrifysgolion yng Nghymru, y DU a ledled y byd.

Mae ymdrechion i feithrin gallu wedi cael eu hybu trwy ein gwaith Gofal Sylfaenol Gwyrddach a'n Siarteri Teithio Iach. Yn ogystal, rydym wedi datblygu cyhoeddiadau, gan gynnwys ar fewnwelediadau demograffig o arolwg cyhoeddus ar y cysylltiadau rhwng y newid hinsawdd a sut mae'n effeithio ar iechyd, ac adroddiad ar leihau plastigau untro yn ein labordai microbioleg.

Mae ein Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd wedi parhau i gefnogi gweithredu, meithrin gallu, ysbrydoli ac addysgu drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf. Mae rhagor o wybodaeth ac enghreifftiau o rai o'n prif gyflawniadau yn ystod 2024/25 i'w gweld yn Adroddiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

# GALLUOGI CYFLAWNI EIN CYNLLUN YN LLWYDDIANNUS

**Mae ein swyddogaethau galluogi yn parhau i fod yn ganolog i gyflawni ein blaenoriaethau strategol yn llwyddiannus, gan chwarae rhan hanfodol yn arweinyddiaeth a chyflawniad nifer o feysydd gwaith pwysig, ochr yn ochr â chyflawni ein hamrediad llawn o swyddogaethau a gweithgareddau statudol.**

Rydym wedi canolbwyntio ar gyflawni'r effaith fwyaf drwy adeiladu ar ddulliau arloesol sy'n gweithio, gan osod defnyddwyr wrth wraidd yr hyn a wnawn a thrwy ffocws diysgog ar wella ansawdd.

## Ein Pobl

Mae ein pobl wrth wraidd ein gwaith i leihau anghydraddoldebau iechyd ac amddiffyn a gwella iechyd a llesiant pobl Cymru. Mae ein Strategaeth Pobl yn darparu ein cyfeiriad a'n blaenoriaethau hirdymor sy'n llunio'r Sefydliad a'n diwylliant a'n ffyrdd o weithio. Ein huchelgais hirdymor o ran pobl yw datblygu gweithlu hyblyg, cynaliadwy, amrywiol a ffyniannus, gyda'r gallu a'r capasiti i gyflawni ein blaenoriaethau strategol. O ystyried pa mor hanfodol yw ein pobl i'n llwyddiant, rydym am ddenu, cadw a datblygu pobl wych, er mwyn creu effaith gadarnhaol yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ledled Cymru.

> "MAE EIN POBL WRTH WRAIDD EIN GWAITH I LEIHAU ANGHYDRADDOLDEBAU IECHYD AC AMDDIFFYN A GWELLA IECHYD A LLESIANT POBL CYMRU"



Eleni rydym wedi ymgymryd â gwaith i adnewyddu ein Strategaeth Pobl i gyd-fynd yn well â'r Strategaeth Hirdymor wedi'i hadnewyddu a gyhoeddwyd yn 2024, i adeiladu ar y camau gweithredu rydym wedi'u cymryd ers 2020, i gydnabod sut mae'r byd wedi newid dros y 5 mlynedd diwethaf ac i gyfrif am yr heriau allweddol ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Rydym yn disgwyl cyhoeddi'r strategaeth erbyn diwedd mis Mehefin 2025.

Mae ein hamcanion allweddol a'n cyflawniadau eraill ar gyfer y flwyddyn wedi'u crynhoi isod.

## Diwylliant a phrofiad

Ein dyhead yw cael naratif diwylliannol cymhellol a diwylliant sefydliadol cyson; profiad staff sy'n blaenoriaethu llesiant, gweithio hyblyg, cyfleoedd am ddilyniant gyrfaol ac sy'n gwneud Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyflogwr o ddewis sy'n denu, yn recriwtio ac yn cadw pobl er mwyn adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu a gweithlu sy'n deall amrywiaeth ac yn eiriol drosto.

- Rydym wedi datblygu dull strategol o ymgysylltu â gweithwyr, sy'n ymateb i ganlyniadau Arolwg Staff GIG Cymru, yr Arolwg Ymgysylltu Meddygol, yr Asesiad Diwylliant a mewnbynnau eraill, ac wedi nodi mesurau i olrhain ein cynnydd gyda'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt i gau'r bwlch rhwng y diwylliant presennol a'r diwylliant delfrydol a chynyddu ymgysylltiad gweithwyr.

- Fe wnaethon ni ddatblygu mwy o Eiriolwyr Diwylliannol achrededig, gan ddarparu gwybodaeth a datblygu sgiliau a fydd yn galluogi ein heiriolwyr i gefnogi ein gwaith diwylliannol yn hyderus ac yn effeithiol.

- Mae ymddygiadau yn ganolog i ddiwylliant ac, eleni, fe wnaethom werthuso 'Y Gorau y Gallwn Fod', y Fframwaith ymddygiadol a lansiwyd gennym yn 2023, yn dilyn ymgysylltu helaeth â chydweithwyr ynghylch sut yr ydym am i'n gwerthoedd – gweithio gyda'n gilydd, gydag ymddiriedaeth a pharch, i wneud gwahaniaeth – ymddangos yn ein profiadau gwaith bob dydd. Byddwn yn defnyddio'r gwerthusiad i lunio sut mae 'Y Gorau y Gallwn Fod' wedi'i wreiddio.

- Roeddem yn falch o weld cynnydd yn y gyfradd ymateb i arolwg staff GIG Cymru, o 54% yn 2023 i 60.5% yn 2024. Mae hyn o'i gymharu â chyfradd ymateb gyffredinol GIG Cymru o 21.9% ar gyfer 2024. Bydd y canlyniadau'n llywio datblygiad pellach ein cynllun ymgysylltu â gweithwyr ac yn ein helpu i dargedu camau gweithredu.

- Cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2024-2028 i gyflawni ein Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus a'n galluogi i gyflawni ein huchelgeisiau.

- Gan adeiladu ar y wobr Aur a ddyfarnwyd i ni yn 2023, fe wnaethom gyflawni Aur gyda Rhagoriaeth yn asesiad Cymhwysedd Diwylliannol Diverse Cymru ar gyfer 2024. Iechyd Cyhoeddus Cymru oedd yr unig sefydliad a gymerodd ran a wnaeth gyflawni'r lefel gydnabyddiaeth hon.

- Mae ein Rhwydweithiau Staff yn parhau i ddatblygu a thyfu, ac maent yn rhan annatod o'r ffordd rydym yn gweithio. Noddir Rhwydweithiau gan aelod o'r Tîm Gweithredol ac, eleni, mynychodd pob Rhwydwaith gyfarfod y Bwrdd i drafod eu gwaith a chytuno ar gamau gweithredu â blaenoriaeth. Lansiwyd is-grŵp o'n Rhwydwaith Porffor i gefnogi Staff Niwrowahanol.

cynnydd yn y gyfradd ymateb i arolwg staff GIG Cymru, o 54% yn 2023 i

**60.5%**

yn 2024



## Effeithiolrwydd Sefydliadol

Ein nod yw cynllunio a gweithio tuag at faint a siâp delfrydol ein gweithlu y cytunwyd arno sy'n cyd-fynd â'n Strategaeth Hirdymor, cael dulliau clir i ddatblygu neu gael gafael ar y sgiliau y mae eu hangen arnom gyda mwy o hyblygrwydd, defnyddio adnoddau lle bo angen, lleihau silos a meithrin cydweithio i gefnogi perfformiad sefydliadol.




- Lansiwyd proses wedi'i diweddaru ar gyfer cynllunio'r gweithlu ym mis Ebrill 2024 a gwelsom lefelau uchel o ymgysylltu ar draws y Sefydliad. Mae'r canlyniadau wedi'u categoreiddio i dri maes eang – Recriwtio a Chadw; Dysgu a Datblygu; a Chynllunio ar gyfer Newid.

- Fe wnaethon ni egluro bod tair thema sgiliau gyffredin; mae angen i ni feithrin sgiliau llythrennedd digidol, sgiliau arweinyddiaeth a rheolaeth, a sgiliau Cymraeg.

- Roedd yr angen am ddull cynllunio cadarn ar gyfer olyniaeth, yn enwedig ar gyfer ein rolau hanfodol, yn allbwn allweddol arall. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu cynllunio ar gyfer olyniaeth ymhellach yn 2025/26.

- Fe wnaethom nodi cysylltiadau clir rhwng yr heriau a amlygwyd yn ein cynlluniau ar gyfer y gweithlu a nodau ac amcanion ein Strategaeth Pobl, a bydd hyn yn caniatáu i'r Gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol addasu ein rhaglen waith i ddiwallu anghenion y Sefydliad yn well.

- Mae ein Strategaeth Pobl yn nodi ein hymrwymiad i wreiddio dull Teulu Swyddi i gefnogi datblygiad proffesiynol, cynllunio ar gyfer olyniaeth a chynllunio'r gweithlu ac, eleni, fe wnaethom sefydlu gweledigaeth glir sy'n amlinellu swyddogaeth teuluoedd swyddi o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Byddwn yn gweithredu'r weledigaeth flwyddyn nesaf.

- Fe wnaethom werthuso cynllun peilot ein rhaglen Academi Arweinyddiaeth a Rheolaeth, ynghyd ag adborth a data a gafwyd o'r rhaglen Arwain gydag Effaith, ac fe wnaethom ddylunio a chyflwyno rhaglen barhaus o ddatblygu arweinyddiaeth a rheolaeth y mae diwylliant ysbrydoledig ac arweinyddiaeth dosturiol yn ganolog iddi.

## Safonau Proffesiynol

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i safonau proffesiynol, mae atebolrwydd am bob proffesiwn gofal iechyd rheoleiddiedig – ac eithrio Nyrsio a Bydwreigiaeth, sy'n aros gyda'r Gyfarwyddiaeth Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig (NQIG) – wedi'i drosglwyddo i Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol (OMD). Mae hyn yn adeiladu ar gylch gwaith presennol yr OMD, sy'n cynnwys goruchwylio gweithwyr proffesiynol a reoleiddir gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) ac ymgynghorwyr aml-broffesiynol sydd wedi'u cofrestru gyda Chofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU (UKPHR). Mae gweithwyr iechyd proffesiynol rheoleiddiedig yn rhan hanfodol o'n gweithlu, ac mae'r OMD a'r NQIG ill dau yn parhau i gryfhau goruchwyliaeth reoleiddiol, goruchwyliaeth glinigol, cefnogaeth gan gymheiriaid, rhwydweithiau proffesiynol a, lle bo'n berthnasol, sicrhau ansawdd ailddilysu ac arfarnu.

## Y Gymraeg

Rydym yn ymfalchïo'n fawr ein bod yn Sefydliad dwyieithog, sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar bob lefel. Mae Tîm y Gymraeg yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth y Gymraeg, gan ddarparu arweiniad arbenigol, templedi a chyflwyno cynnwys Cymraeg o ansawdd uchel. Maent hefyd yn arwain hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac yn cefnogi staff i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith bob dydd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cymryd camau breision drwy recriwtio Cydlynydd Cyfieithu Cymraeg i oruchwylio ein gwaith cyfieithu a datblygu Porth Ceisiadau Cyfieithu Cymraeg newydd, a lansiwyd ym mis Ionawr 2025. At hynny, rydym wedi gwreiddio'r Gymraeg yn ein prosesau asesu effaith, gan sicrhau bod ein penderfyniadau polisi yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a'i siaradwyr.

> "RYDYM YN YMFALCHÏO'N FAWR EIN BOD YN SEFYDLIAD DWYIEITHOG, SY'N HYRWYDDO'R IAITH GYMRAEG AR BOB LEFEL"

> “DERBYNIODD EIN CYFARWYDDIAETH POBL A DATBLYGU SEFYDLIADOL WOBR AUR GYDA RHAGORIAETH GAN DIVERSE CYMRU”

Mae gennym chwe rhwydwaith amrywiaeth staff ar waith yn Iechyd Cyhoeddus Cymru sy’n dod â gweithwyr â nodweddion cyffredin fel rhywedd, hil, treftadaeth ddiwylliannol, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, ffydd, oedran ac anabledd at ei gilydd mewn lle diogel ac sy’n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i’w haelodau. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynnal digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth, codi proffil ein rhwydweithiau a chynnig cefnogaeth drwy addysg i’n holl weithwyr. Yn 2024, ni oedd y 31ain cyflogwr mwyaf cynhwysol ac rydym yn gyflogwr Safon Aur ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle yn y DU Stonewall, a derbyniodd ein Cyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol Wobr Aur gyda Rhagoriaeth gan Diverse Cymru fel rhan o’u Tystysgrif Cynnydd Cymhwysedd Diwylliannol, ar ôl asesiad allanol gan Fuddsoddwyr mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y DU (UKIED).

## Busnes a Phrosesau

Rydym yn parhau i esblygu ein polisïau, ein prosesau a’n gwasanaethau cymorth i sbarduno a galluogi perfformiad uchel trwy reolwyr a metrigau pobl allweddol i lywio cynllunio, gwneud penderfyniadau a rheoli timau.

- Fe wnaethom adolygu a diweddaru nifer o bolisïau mewn partneriaeth â chydweithwyr Undebau Llafur ac ar ôl ymgynghori â staff, er mwyn cyflawni prosesau symlach a mwy effeithlon. Mae hyn yn cynnwys ein proses rheoli sefydliadau.

- Gwnaed gwelliannau i brosesau, ffurflenni a thempledi a defnyddiwyd awtomeiddio gennym i wella profiad cwsmeriaid a chynyddu effeithlonrwydd prosesau.

- Fe wnaethom gynnal rhaglen o ymchwil defnyddwyr i’n helpu i ddeall anghenion defnyddwyr y gwasanaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol, i roi ein pobl wrth wraidd dylunio ein gwasanaethau a datblygu prosesau a gwelliannau gwasanaeth mwy effeithiol. Llywiodd hyn ddatblygiad cynllun blaenoriaethol ar gyfer gwella.

- Eleni, rydym wedi asesu ein parodrwydd ac wedi dechrau’r gwaith a fydd yn ein paratoi ni ar gyfer datrysiad gweithlu’r GIG yn y dyfodol a fydd yn disodli’r system bresennol, sef Cofnod Staff Electronig y GIG (ESR), y system fwyaf o’i bath yn y byd.

## Heriau a Risgiau

- Rydym yn parhau i wynebu heriau sy'n effeithio ar ein pobl a'n gwaith, yn ogystal â phoblogaeth ehangach Cymru. Mae ffactorau fel poblogaeth sy'n heneiddio, niferoedd mwy o bobl yn gweithio i oedran hŷn, heriau economaidd-gymdeithasol, effaith y pandemig a'r newid hinsawdd oll yn effeithio ar y gweithlu y mae ei angen arnom a'r gweithlu sydd ar gael i ni, nawr ac yn y dyfodol.

- Mae angen datblygu strategaethau recriwtio ar gyfer rolau anodd eu llenwi ac i ymateb i ehangu arfaethedig yn y dyfodol, gan gynnwys sgrinio'r ysgyfaint, gwyddor data, deallusrwydd artiffisial (AI) a genomeg. Mae angen i ni feithrin sgiliau llythrennedd digidol, sgiliau arweinyddiaeth a rheolaeth, a sgiliau Cymraeg, ynghyd â gofyniad am lwybrau gyrfa clir i bob teulu swyddi.

- Mae angen i ni allu recriwtio a datblygu gweithlu mwy amrywiol sy'n adlewyrchu'n well y cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethu ac sy'n rhoi cipolwg i anghenion a chymhellion ein holl ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae gennym waith pellach i'w wneud i wreiddio cynllunio'r gweithlu yn strategol yn ein cylch cynllunio integredig hirdymor.

Rydym hefyd eisiau gwreiddio ffyrdd o weithio a fydd yn denu ac yn ysbrydoli gweithlu aml-genhedlaeth i weithio'n effeithiol gyda'i gilydd, gan werthfawrogi eu sgiliau a safbwyntiau ei gilydd, a chefnogi anghenion newidiol pobl drwy gynyddu'r cyfleoedd am weithio hyblyg ac ystwyth.



## Rheoli Sefydliadol, Gwelliant a Risg

> “RYDYM WEDI YMRWYMO I WEITHREDU’R SYSTEM RHEOLI ANSAWDD (QMS) HON SYDD WEDI’I CHYNLLUNIO ER DEILLIANNAU RHAGOROL AC SYDD WEDI’I SBARDUNO GAN ANGHENION Y BOBLOGAETH RYDYM YN EI GWASANAETHU”

Rydym yn anelu at fod yn esiampl o ran ansawdd a’n nod yw darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol. Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi datblygu ein dull o ymdrin ag ansawdd a gwelliant parhaus gan ddefnyddio System Rheoli Ansawdd i ddisgrifio dyluniad sefydliadol yn effeithiol ac i gymryd rhan mewn trawsnewid systemau a gwella ansawdd yn barhaus.

Rydym wedi ymrwymo i weithredu’r System Rheoli Ansawdd (QMS) hon sydd wedi’i chynllunio er deilliannau rhagorol ac sydd wedi’i sbarduno gan anghenion y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu. Mae hyn yn ei dro yn galluogi diwylliant ac amgylchedd dysgu o safon sy’n cefnogi ein staff ac yn darparu lle gwych i weithio a ffynnu. Mae’r dull hwn yn cefnogi cyflawniad ein strategaeth a’n blaenoriaethau strategol, a’n huchelgais ynghylch y diwylliant yr ydym ei eisiau fel Sefydliad.

Mae mynd ar drywydd dull sefydliad-gyfan o reoli ansawdd yn ein galluogi i weithredu’r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd o fewn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) (2020). Mae hefyd yn ein galluogi i ganolbwyntio’n gliriach ar anghenion y system a phwrpas y sefydliad. Yn sgil cyflwyno’r Ddyletswydd Ansawdd a’r Ddyletswydd Gonestrwydd, rydym wedi bod yn gweithio gyda’n staff a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau ein bod yn bodloni gofynion y ddwy ddyletswydd, gyda’r nod yn y pen draw o ddarparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol.

Mae ein Cyfarwyddiaeth Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig yn gyfrifol am alluogi, cynghori, cydweithio a chefnogi ar draws y Sefydliad fel arbenigwyr pwnc, gan sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer sicrhau ansawdd a llywodraethu a diogelu integredig. Yn 2024/25, dyma rai o brif gyflawniadau’r Gyfarwyddiaeth hon:

## Ansawdd a Gwella

I ymateb i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, mae'r Safonau Iechyd a Gofal wedi cael eu hadolygu fel rhan o weithredu'r Ddyletswydd Ansawdd. Mae Fframwaith adrodd ansawdd, yn seiliedig ar Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal newydd, wedi disodli'r Safonau Iechyd a Gofal. Mae'r deuddeg Safon Ansawdd Iechyd a Gofal wedi'u saernïo ar sail chwe pharth ansawdd a chwe galluogwr ansawdd, i ddisgrifio sut olwg sydd ar ofal o ansawdd da.





Mae'r fframwaith adrodd newydd a'r Ddyletswydd Ansawdd yn nodi fframwaith clir ar gyfer rheoli ansawdd a fydd yn cryfhau'r cysylltiad rhwng y Ddyletswydd Ansawdd, y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal, a'r systemau rheoli ansawdd ehangach yn Sefydliadau'r GIG yng Nghymru.

Yn 2024, cyhoeddwyd yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol cyntaf i ddangos sut y cydymffurfiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru â'r Ddyletswydd Ansawdd a'r deuddeg safon. Edrychodd yn ôl ar gyflawniadau a chyflwyno drwy lens ansawdd, ac amlygodd y dysgu a fyddai'n ein helpu i wella ein gwasanaethau yn ystod y flwyddyn i ddod. I weld manylion am sut rydym wedi cydymffurfio eleni, darllenwch Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2024/25, a gyhoeddir ar ein gwefan ym mis Medi 2025.

> "YN 2024, CYHOEDDWYD YR ADRODDIAD ANSAWDD BLYNYDDOL CYNTAF I DDANGOS SUT Y CYDYMFFURFIODD IECHYD CYHOEDDUS CYMRU Â'R DDYLETSWYDD ANSAWDD A'R DEUDDEG SAFON"

## Prosiect Rheoli Cofnodion

Mae'r Prosiect hwn wedi cyflawni gweithrediad SharePoint Online, sy'n un System Rheoli Dogfennau Electronig (EDRMS) ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r rhaglen hon wedi bod ar waith ers 2023 i wella cydweithio, lleihau amser staff wrth chwilio am ddogfennau a chofnodion a'u defnyddio, a sicrhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydymffurfio â deddfwriaeth Llywodraethu Gwybodaeth.

Rydym eisoes yn gweld gwelliannau mewn llywodraethu a rheoli fersiynau, a gall ein partneriaid allanol fel Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol ymuno â ni i gydweithio ar ddogfennaeth, gan leihau'r amser y mae'n ei gymryd i gwblhau darnau hanfodol o waith. Roedd hwn yn newid sefydliadol sylweddol, a gafodd groeso brwd gan staff ac roedd lefel uchel o ymgysylltu â'r Prosiect. Dyma newid cyffrous i Iechyd Cyhoeddus Cymru, a fydd yn parhau i gefnogi staff i gyflawni ein blaenoriaethau strategol.

## Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau a Chleifion

Mae'r Gyfarwyddiaeth yn darparu cefnogaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a phrofiad defnyddwyr gwasanaethau i dimau a rhaglenni ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru. Yn 2024/25, fe wnaethom gynnal adolygiad helaeth o'n Rhaglen Llysgenhadon Ifanc (rhaglen ymgysylltu â phobl ifanc) ac, yn 2025/26, bwriadwn weithio gydag arbenigedd sefydliadau ieuenctid cymunedol i ddod â grŵp cynghori o bobl ifanc o bob cwr o Gymru ynghyd i gefnogi datblygiad rhaglen wedi'i hadnewyddu sy'n cael ei llywio gan leisiau pobl ifanc. Yn 2024/25, dechreuodd y tîm Ymgysylltu asesiad sylfaenol manwl hefyd o weithgarwch ymgysylltu gan y sefydliad â phobl, cymunedau a'r trydydd sector ledled Cymru. Cyflwynir argymhellion yn ystod haf 2025.

Er mwyn hyrwyddo pwysigrwydd gwrando ar y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a chasglu adborth ganddynt, mae Tîm Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau wedi bod yn gweithio gyda holl raglenni Sgrinio Cenedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyflwyno arolygon profiad ac adborth defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r arolygon hyn ar waith erbyn hyn ac maent ar gael ar y gwefannau Sgrinio perthnasol, Sgrinio – Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r arolygon yn cael eu hyrwyddo gan dimau sgrinio gan ddefnyddio posteri a thaflenni, ac maent wedi'u cynnwys gyda'r llythyrau apwyntiadau a chanlyniadau sy'n cael eu hanfon gennym. Cwblhawyd gwaith mewn partneriaeth â'r Tîm Gweithio i Wella (Cwynion a Phryderon) i ddatblygu a chyflwyno un dudalen we ar gyfer Adborth a Chwynion, gyda dolenni i arolygon ar-lein. Gellir cyrchu'r dudalen drwy'r ddolen ganlynol: Adborth a Chwynion – Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Fel Sefydliad, mae'n ofynnol i ni fabwysiadu ymagwedd 'ar waith bob amser' at dderbyn adborth. Mae hyn yn golygu y gall pobl adael adborth ar amser ac mewn lleoliad o'u dewis. Mae ein tîm wedi gweithio i gyflwyno negeseuon testun SMS i geisio adborth. Roedd hyn yn cynnwys gweithio drwy ofynion llywodraethu'r GIG, datrys problemau TG a sicrhau bod y prosiect yn cydymffurfio â Deddfwriaeth Diogelu Data. Mae'r dull SMS yn cael ei dreialu gyda Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru ac yn ei 5 wythnos gyntaf, fe ddenodd 460 o ymatebion adborth.



> MAE RHEOLI RISG YN HANFODOL I REDEG SEFYDLIAD DIOGEL, EFFEITHIOL, BLAENGAR A LLWYDDIANNUS

Yn olaf, rydym hefyd wedi gweithio gyda'n Tîm Diogelu Iechyd a Microbioleg i gynnig profion Hepatitis B a Hepatitis C, ynghyd â phrofion HIV, i gymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. O ganlyniad i'r fenter gydweithio, profwyd dros 90 o bobl a gwerthuswyd y gwaith drwy adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth.

## Rheoli Risg

Mae rheoli risg yn hanfodol i redeg sefydliad diogel, effeithiol, blaengar a llwyddiannus. Dylai fod wrth wraidd gwneud penderfyniadau, agendâu busnes a dyrannu adnoddau ar lefel weithredol ac ar lefel gynllunio, a dylai anelu at nodi cyfleoedd i arloesi a buddsoddi, ochr yn ochr â'r angen i leihau amlygiad i risg.

Yn ystod 2024/25, fe wnaethom adolygu a diwygio ein risgiau strategol a'n risgiau corfforaethol yn unol â'n Strategaeth Hirdymor a'n Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) sydd newydd eu hadnewyddu. Edrychom yn fanwl ar ein mapiau llwybrau sy'n ategu'r gwaith o gyflawni ein Strategaeth Hirdymor drwy lens rheoli risg. O ganlyniad i hyn, rhoddwyd ffocws o'r newydd i'n risgiau strategol er mwyn iddynt ddisgrifio orau'r risgiau sefydliadol mwyaf arwyddocaol yr ydym yn eu hwynebu, a hynny o safbwynt Iechyd y Cyhoedd ac o safbwynt Ansawdd. Drwy ddefnyddio'r dull hwn, gallwn hoelio sylw ein gweithgareddau ar y camau lliniaru sydd o fewn ein rheolaeth ond hefyd amlygu'r meysydd sydd angen ein dylanwad o fewn y system, er mwyn cyflawni ein deilliannau bwriadedig.

Rhagwelir, erbyn diwedd chwarter un 2025/26, y bydd fframwaith diwygiedig ar barodrwydd i dderbyn risg yn cael ei fabwysiadu ar draws y sefydliad. Bydd hyn yn golygu y bydd staff, o weithwyr rheng flaen i'n Bwrdd, yn gallu deall a chymhwyso parodrwydd i dderbyn risg i'w maes penodol.  Bydd hyn yn annog cysondeb, ac yn sicrhau bod ein parodrwydd i dderbyn risg, ein prosesau risg a'n camau lliniaru yn cyd-fynd â'n huchelgais yn ein Strategaeth Hirdymor.

## Y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol wedi canolbwyntio ar wella arferion diogelu ledled Cymru drwy sicrhau ansawdd, datblygu fframwaith adrodd a monitro perfformiad, a chydweithio ag asiantaethau partner.

Mae modelau cymorth wedi'u cynllunio ar gyfer arweinwyr diogelu GIG Cymru i helpu i atal straen a gorweithio, gan alluogi ymgysylltiad a chwilfrydedd parhaus yn eu rolau. Roedd digwyddiadau dysgu cenedlaethol a gynhaliwyd yng ngogledd a de Cymru yn canolbwyntio ar chwilfrydedd proffesiynol, diogelu oedolion mewn perygl a goruchwyliaeth adferol wedi caniatáu am rannu gwersi allweddol i gryfhau arfer.

Mae mentrau codi ymwybyddiaeth a ddatblygwyd yn cynnwys adnoddau hyfforddiant ar chwilfrydedd proffesiynol, mwyhau llais oedolion mewn perygl, diogelwch rhywiol, camfanteisio ar blant a'r broses yn dilyn marwolaeth annisgwyl plentyn.

Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd lleisiau plant ac oedolion yn parhau i fod yn ganolog i bolisïau ac arferion diogelu, gyda chyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaethau roi adborth arnynt wedi'u gwreiddio ym mhob polisi, gweithdrefn ac arfer cenedlaethol newydd. Bydd gwaith hefyd yn parhau i gryfhau diogelu ar draws GIG Cymru, fel y nodwyd mewn adolygiad a gomisiynwyd gan y Prif Swyddog Nyrsio yn 2024.

> "WRTH EDRYCH TUA'R DYFODOL, BYDD LLEISIAU PLANT AC OEDOLION YN PARHAU I FOD YN GANOLOG I BOLISÏAU AC ARFERION DIOGELU"

## Gwneud y defnydd gorau o ddigidol, data a thystiolaeth i wella iechyd y cyhoedd

Wrth ddatblygu ein strategaeth, fe wnaethom ganolbwyntio ar y meysydd ble y gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf i bobl Cymru. Hefyd, canolbwyntiom ar sut rydym yn galluogi ac yn gyrru cyflawni ein cynllun drwy gofleidio dulliau mwy ystwyth, seiliedig ar ddata, ynghyd â mabwysiadu arloesedd lle bo modd, gan osod defnyddwyr wrth wraidd yr hyn a wnawn a gwreiddio gwella ansawdd.

Gyda'r amrywiaeth mewn rhaglenni gwaith o fewn ein Cyfarwyddiaeth Ymchwil, Data a Digidol, rydym wedi cyflawni llawer o gyflawniadau allweddol ar draws y Sefydliad ac mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol.



## Ymchwil a Gwerthuso

Mae rhai o'r cyflawniadau allweddol mewn Ymchwil a Gwerthuso eleni yn cynnwys:

- Cwblhawyd adolygiad o Iechyd Cyhoeddus Academaidd yng Nghymru, a gweithiwyd gyda Rhwydwaith Arloesi Cymru i gyd-gynhyrchu gweledigaeth ar gyfer ymchwil iechyd cyhoeddus yng Nghymru at y dyfodol.

- Ymchwil iechyd meddwl plant a phobl ifanc i ddeall y cysylltiad rhwng llesiant meddwl ac iechyd meddwl, gan archwilio grwpiau allweddol sydd mewn perygl o gyflwyno argyfwng iechyd meddwl a llwybrau ar gyfer cael gafael ar gymorth – gan gynnwys mewnwelediadau ansoddol gan y bobl sy'n llai tebygol o gael eu clywed.

- Adeiladu gwerthusiad tryloyw a chadarn, cyson yn strategol, o ymyriadau i wella iechyd gan gynnwys ymgyrch gyfathrebu ac ymgysylltu genedlaethol seiliedig ar ymddygiad ar gyfer brechlynnau'r gaeaf ac ymddygiadau ataliol; Partneriaeth Strategol HAPUS ac arolwg cenedlaethol sylfaenol; gwasanaeth rhagsefydlu i adsefydlu ar gyfer cleifion canser; a gwerthusiad o ddeilliannau Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan.

## Gwyddor Data a Dadansoddi

Mae ein Tîm Gwyddor Data a Dadansoddi yn darparu data a dadansoddiad i yrru penderfyniadau. Defnyddir hyn gan dimau Iechyd Cyhoeddus, cynllunwyr, dylunwyr gwasanaethau, llunwyr polisi a gwneuthurwyr penderfyniadau eraill. Rydym hefyd yn arwain y gwaith o gyflawni ffrydiau gwaith map llwybr y Strategaeth Digidol a Data, er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n data, mewn ffyrdd sy'n ddiogel, yn effeithlon ac yn darparu gwerth am arian.

Dyma rai o'n prif gyflawniadau yn 2024/25:

- Lansio ein dangosfwrdd Clystyrau Gofal Sylfaenol a chyhoeddi set ategol o broffiliau rhyngweithiol i helpu gwneuthurwyr penderfyniadau i ddeall anghenion iechyd y boblogaeth a llywio cynllunio a darparu adnoddau.

- Cyhoeddi erthyglau ar y we ar gyffredinolrwydd clefydau anhrosglwyddadwy a thueddiadau mewn ffactorau risg.

- Datblygu system fesur Iechyd Cyhoeddus Cymru, i'n galluogi i ddeall a monitro effaith ein gweithgareddau, a gyrru blaenoriaethu a gwneud penderfyniadau.

- Datblygu'r ymagwedd at reoli deallusrwydd artiffisial (AI) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, a fydd yn caniatáu inni fanteisio'n hyderus ar y cyfleoedd y mae AI yn eu cynnig, mewn ffordd sy'n ddiogel, yn gyfreithlon, yn foesegol ac yn effeithlon.

## Digidol a data

Dyma rai o'n prif gyflawniadau yn 2024/25:

- Cyflwyno golwg ar y Map Llwybr Digidol a Data newydd i'n Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd.

- Mae'r gwaith yn parhau ar y System Diogelu Iechyd (sy'n cymryd lle Tarian). Mae'r cyfnod alffa wedi bwrw golwg ar sut rydym ni'n adeiladu'r achos busnes ar gyfer system diogelu iechyd sy'n diwallu ein hanghenion nawr ac sy'n barod ar gyfer pandemig.

- Rhaglen dethol carfan sgrinio'r fron sydd wedi disodli system flaenorol y Gwasanaethau Seilwaith Cymwysiadau Iechyd Gwladol (NHAIS).

- Cynnydd sylweddol wrth newid platfform systemau Sgrinio Newydd-anedig. Er bod angen ailgynllunio ar gyfer seilwaith gweinydd newydd, mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n dda a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mai 2025.

- Gwella ein cyflwr seiber drwy gyflwyno hyfforddiant, lleihau nifer yr hen systemau a chymwysiadau, ailosod ac adfer waliau tân, ymarfer ERIS ar wydnwch seiber yn ogystal â ffurfio tîm seiber newydd.

- Cyfnod darganfod ar System Genedlaethol Sgrinio'r Fron (NBSS) i benderfynu ar ddatblygiadau yn y dyfodol a chefnogaeth ar gyfer y cymhwysiad.

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu rhaglenni digidol cenedlaethol, megis y System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS2.0) a Chaffael y System Gwybodeg Radioleg (RISP).

"CYFLWYNO GOLWG AR Y MAP LLWYBR DIGIDOL A DATA NEWYDD I'N PWYLLGOR GWYBODAETH, YMCHWIL A HYSBYSRWYDD"



- Cyflwyno gweinydd adrodd a modiwl yr amgylchedd ar gyfer Tarian, ein system ddigidol gyfredol ar gyfer Diogelu Iechyd.

## Cofrestrfeydd

Mae ein Cyfarwyddiaeth hefyd yn gyfrifol am adrodd statudol gan ein Cofrestrfeydd. Mae'r timau'n prosesu sawl ffynhonnell wybodaeth, y mae'r pandemig yn effeithio ar rai ohonynt o hyd. Mae gweithgareddau'r Cofrestrfeydd yn cynnwys:

- Cyfarfodydd blynyddol ac adroddiadau ystadegau swyddogol y Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaleddau Cynhenid (CARIS) ym mis Tachwedd 2024. Cynhaliwyd y cyfarfod wyneb yn wyneb yn Wrecsam ac roedd yr adroddiadau'n cynnwys:
    - Data am anomaleddau cynhenid
    - Data am glefydau prin plentyndod gydag allbwn newydd ar lefel bwrdd iechyd lleol
    - Cyfraddau canfod cyn geni
- Clefydau Prin Oedolion (ARD):
    - Parhawyd gweithio i sefydlu'r gofrestrfa'n ffurfiol, gyda chefnogaeth gan y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth, gan gynnwys diweddaru'r wefan gyda'r wybodaeth y mae ei hangen i fwrw ymlaen â chyflawni caniatâd y Grŵp Cynghori ar Gyfrinachedd (CAG).
- Y Rhaglen Mesur Plant (CMP):
    - Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol Ystadegau Swyddogol ym mis Mai 2024 (data 2022-2023).
    - Cyflwynwyd addysgu i dimau nyrsio ysgolion.
    - Cyflwynwyd copi cyntaf dangosfwrdd y Rhaglen Mesur Plant i'r grŵp rhanddeiliaid ym mis Mehefin 2024. Cyhoeddwyd cam dau dangosfwrdd y Rhaglen Mesur Plant ym mis Rhagfyr 2024, gan ychwanegu data ar gyfer pumedau amddifadedd Cymru a data cymharol gwledydd y DU.
- Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru (WCISU):
    - Cyhoeddwyd ystadegau swyddogol ar nifer yr achosion o ganser ar gyfer blynyddoedd cofrestru 2002-2021 ym mis Medi 2024.

    - Cyhoeddwyd ystadegau swyddogol ar nifer yr achosion o oroesi canser ar gyfer blynyddoedd cofrestru 2002-2021 ym mis Mawrth 2025.
    - Cyhoeddwyd ystadegau swyddogol ar gyfer nifer yr achosion o ganser y croen nad yw'n felanoma ar gyfer blynyddoedd cofrestru 2016-2020 ym mis Mai 2024.
    - Cwblhawyd prosiect a ariannwyd gan Fenter Canser Moondance yn ôl y paramedrau y cytunwyd arnynt – Gwireddu Pŵer Archwiliad Canser y Coluddyn – Archwiliad Cymreig Pwrpasol.

- Adolygiad o Farwolaethau Plant (CDR):

    - Mae proses gyfathrebu/uwchgyfeirio wedi'i datblygu ac mae gwaith ar y gweill i wella swyddogaeth wyliadwriaeth y rhaglen.

- Gwyliadwriaeth Amser Real Hunanladdiad Tybiedig (RTSSS)

    - Cyhoeddi ail adroddiad gwyliadwriaeth 'Marwolaethau trwy Hunanladdiad Tybiedig, 2023/24'. Cyflwyno canfyddiadau yn y tri fforwm rhanbarthol ar atal hunanladdiad a hunan-niweidio ym mis Rhagfyr 2024.

## Hwyluso Defnyddio Gwybodaeth

Mae Hwyluso Defnyddio Gwybodaeth yn hanfodol i sut mae gwybodaeth yn cael ei sicrhau a'i defnyddio o fewn sefydliadau a rhyngddynt. Mae'r tîm yn arwain y Sefydliad i ddiffinio 'Egwyddorion a Safonau Cyhoeddi' a gweithredu ein Dull Monitro Effaith. Mae'r tîm wedi:

- Gweithredu dull monitro effaith, gan gynnwys arolwg blynyddol o ddefnyddwyr gwasanaethau a dilyniant penodol i gynnyrch, a bydd yn dwyn hyn at ei gilydd mewn adroddiad blynyddol.

- Cyd-gynhyrchu a chytuno ar safonau cyhoeddi ac adnoddau ategol, gan gyfuno'r rhain â'r Safonau Dylunio i wella taith staff-ddefnyddwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd gweithredu'r ddwy set hyn o safonau yn digwydd yn ddi-dor wrth i Iechyd Cyhoeddus Cymru symud tuag at ei wefan newydd.



## Gwasanaeth Tystiolaeth

Mae ein Gwasanaeth Tystiolaeth yn llywio polisi, ymarfer a gwneud penderfyniadau iechyd sy'n sail i weithredu ym maes iechyd y cyhoedd drwy gynhyrchu cynhyrchion adolygu megis adolygiadau cyflym, mapiau tystiolaeth ac adolygiadau cwmpasu. Mae'r gwasanaeth wedi'i gynllunio i helpu defnyddwyr i helpu eu hunain drwy eu cyfeirio at dystiolaeth iechyd cyhoeddus bwysig, cefnogi defnyddwyr i chwilio am dystiolaeth a datblygu nifer o adnoddau a sesiynau hyfforddiant ategol i helpu i rymuso pobl eraill i gael at wybodaeth briodol. Hefyd, mae'r Gwasanaeth Tystiolaeth wedi cynhyrchu nifer o gynhyrchion dan arweiniad defnyddwyr, gan gynnwys:

- Adolygiad o adolygiadau systematig sy'n edrych ar ymyriadau cyffredinol, system gyfan ac ymyriadau seiliedig ar leoliadau ar gyfer sefydlogi neu leihau cyffredinrwydd gorbwysau a gordewdra
- Adolygiad cyflym yn edrych ar Ddeall rôl credoau iechyd ymhlith oedolion sy'n ymwneud â gwasanaethau ataliol eilaidd a thrydyddol i fyw'n dda gyda diabetes Math 2 (Dylid cyhoeddi ym mis Ebrill 2025).
- Nifer o adolygiadau cwmpasu ystwyth ac, fel rhan o'n cydweithrediadau parhaus â Chydweithrediad Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW), rydym wedi cynhyrchu nifer o adolygiadau cyflym uchel eu heffaith.
- Rydym hefyd wedi diweddaru a digideiddio ein holl gyfres o fapiau tystiolaeth i wella hygyrchedd tystiolaeth allweddol.

## Strategaeth Hirdymor

Mae ein Strategaeth Hirdymor ar gyfer 2023-2035 yn cyflwyno ein gweledigaeth ar gyfer cyflawni dyfodol iachach i Gymru erbyn 2035 drwy ganolbwyntio ar gyflawni ein chwe blaenoriaeth strategol a fydd yn gyrru ein gwaith dros y tymor hir.

### Yr hyn a gyflawnwyd gennym

Yn ystod 2024/25, er mwyn cynorthwyo â chyflawni ein Strategaeth, fe wnaethom gymhwyso methodoleg meddwl ar gyfer y dyfodol i ddatblygu mapiau llwybrau ar gyfer y chwe blaenoriaeth strategol. Dogfennau cynllunio mewnol ydyn nhw sy'n cysylltu ein hamcanion ar gyfer 2035 â'n sefyllfa bresennol. Maent yn ein helpu i nodi cyfleoedd a datrysiadau mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol a darparu tryloywder o ran ein cyfeiriad teithio.

Mae'r mapiau llwybr yn dwyn ynghyd ein syniadau ar gyfer pob blaenoriaeth strategol am:

- Ein rôl gyflawni unigryw (e.e. dylanwadu, ysgogi, eirioli, cyflawni)
- Y cyd-destun strategol a pholisi a sut y mae wedi llunio ein blaenoriaethau
- Ein hamcanion ar gyfer 2035 a'r camau y mae eu hangen yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir i gyflawni pob un ohonynt
- Mesur i'n helpu i ddeall ein heffaith a ble mae angen i ni addasu.

Fe'u datblygwyd trwy waith traws-sefydliadol ac amlddisgyblaethol a thrwy gael adborth gan ein rhanddeiliaid a'n partneriaid a gasglwyd gennym wrth ddatblygu ein strategaeth.



## Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Mae cyfathrebu yn swyddogaeth fusnes strategol yn ogystal ag yn ymyrraeth iechyd cyhoeddus ynddi ei hun. Ein nod yw darparu cyfathrebu, ymgyrchoedd a gweithgareddau ymgysylltu o'r radd flaenaf sy'n cefnogi blaenoriaethau strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn gwella bywyd pobl ac yn helpu i gyflawni dyfodol iachach i Gymru.

> "NOD YMGYRCHOEDD IECHYD CYHOEDDUS YW YSGOGI POBL, DYLANWADU ARNYNT A'U GALLUOGI I GAEL AT WASANAETHAU CYHOEDDUS A GWNEUD DEWISIADAU I WELLA EU HIECHYD A'U LLESIANT"

Nod ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus yw ysgogi pobl, dylanwadu arnynt a'u galluogi i gael at wasanaethau cyhoeddus a gwneud dewisiadau i wella eu hiechyd a'u llesiant. Pan gânt eu cynllunio a'u gweithredu gan ddefnyddio data, gwyddor ymddygiad a sgiliau creadigol, gall ymgyrchoedd fod yn rym llesol pwerus, gan helpu pobl i gymryd camau cadarnhaol i wella a diogelu eu hiechyd; ac ar yr un pryd meithrin hyder ac ymddiriedaeth yn ein sefydliadau a'n brandiau gan ei gwneud hi'n fwy tebygol y bydd pobl yn dilyn cyngor iechyd.

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn mewn byd sy'n newid, mae'n rhaid i ni aros ar flaen y gad o ran technegau cyfathrebu, marchnata ac ymgysylltu, gan gymhwyso dulliau trylwyr a chyson i'n gwaith, a chynnal gwerthusiad treigl. Rydym yn addasu i anghenion newidiol defnyddwyr ein gwasanaeth a'r cyhoedd, ac yn gweithio i fanteisio ar botensial data a llwyfannau a sianeli newydd. Er mwyn bodloni'r safonau llym sy'n ofynnol i gyflawni nodau iechyd cyhoeddus, rhaid inni gymhwyso dulliau trylwyr, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gyson.

### Yr hyn a gyflawnwyd gennym

Yn 2024/25, roedd rhai o'n cyflawniadau allweddol fel a ganlyn:

- Cydnabuwyd rhagoriaeth ein gwaith cyfathrebu ar draws y diwydiant cyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus. Eleni, cafodd ein gwaith ei roi ar restr fer chwe Gwobr CIPR Cymru, gan gynnwys y tîm mewnol gorau a'r ymgyrch orau gyda chyllideb isel. Hefyd, fe wnaethon ni dderbyn Gwobr UKPHR am Ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol Orau 2024, a gwobr PRCA DARE Cymru. Roedd hyn yn adlewyrchu gwaith ar draws ymgyrchoedd cyhoeddus, cysylltiadau â'r cyfryngau ac ymgysylltu.

- Enghraifft o ddefnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol oedd y gwaith a gyflawnwyd gennym i helpu pobl i ddeall manteision sgrinio'r coluddyn a rhoi cyfle i ymateb i gwestiynau gan y cyhoedd. Fe wnaethon ni ffilmio astudiaeth achos gyda goroeswr canser a gafodd driniaeth am ganser y coluddyn yn dilyn apwyntiad sgrinio arferol. Perfformiodd y cynnwys yn dda a dangosodd rym defnyddio straeon go iawn i esbonio iechyd y cyhoedd. Arweiniodd hyn at gyfle i rannu ein neges ar raglen Prynhawn Da S4C.

- Fe wnaethon ni barhau i lywio'r drafodaeth gyhoeddus drwy waith rhagweithiol yn y cyfryngau. Er enghraifft, fe wnaethon ni sicrhau sylw sylweddol yn y cyfryngau, gan gynnwys lefel uchel iawn o sylw cenedlaethol ar draws y DU ar gyfer adroddiad terfynol y Grŵp Adolygu Digwyddiadau Fepio. Roedd ein huchafbwyntiau darlledu yn cynnwys cyfweliadau am fepio ar Radio 5 Live ac ar Talk TV – cynulleidfaoedd nad ydym yn eu cyrraedd yn aml. Tynnodd y cyfryngau sylw'n benodol at ein hargymhelliad y dylid rhoi patsys nicotin i bobl ifanc er mwyn brwydro yn erbyn bod yn gaeth i fepio.

- Defnyddiodd ein hymgyrchoedd cyhoeddus wyddor ymddygiad a methodoleg gadarn i sicrhau canlyniadau. Er enghraifft, enillodd ymgyrch Wythnos Profi HIV Cymru (Tachwedd 2023) ddwy wobr fawreddog yng Ngwobrau PRCA Dare Cymru. Nod yr ymgyrch oedd cynyddu profion HIV ymhlith pobl sy'n weithgar yn rhywiol yng Nghymru ac arweiniodd yr ymgyrch at archebu 9,006 o'r pecynnau profi gartref ym mis Tachwedd 2023.  Awgrymodd y gwerthusiad ganlyniadau cryf ar y cyfan. Aeth yr ymgyrch y tu hwnt i ddisgwyliadau wrth ymgysylltu â grwpiau amrywiol. Yn fwyaf nodedig, cyflawnodd y lefel ymgysylltu uchaf erioed â chymunedau pobl Dduon ac Asiaidd yng Nghymru – carreg filltir arloesol. Ysgogodd yr ymgyrch dros 22,000 o ymweliadau â gwefan Iechyd Rhywiol Cymru i archebu pecynnau prawf, gyda mwy nag 16,000 wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â deunyddiau hyrwyddo'r ymgyrch.



**9,006**

orders of the home testing kit in November 2023

500

Daeth dros 500 o staff i'n dwy Gynhadledd Staff ym mis Hydref

- Mae ymgysylltu â staff yn rhan hanfodol o'n gwaith cyfathrebu. Roedd mis Mehefin yn fis Balchder, ac fe wnaethon ni ddathlu ein cydweithwyr LHDTC+ drwy rannu straeon personol iawn am 'beth mae Balchder yn ei olygu i mi' ar y fewnrwyd. Fe wnaethon ni orffen y mis gyda montage lliwgar o luniau o staff Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cymryd rhan yng ngorymdaith Balchder. Roedd y stori nodwedd gan Jim McManus yn un o'r erthyglau fwyaf poblogaidd, gyda 28 o sylwadau a 1284 o ymweliadau.

- Daeth dros 500 o staff i'n dwy Gynhadledd Staff ym mis Hydref, gydag adborth cadarnhaol dros ben. Roedd hwn yn gyfle i staff o bob rhan o'r Sefydliad ddod ynghyd i glywed am ein chwe blaenoriaeth strategol, sut rydym yn ein gosod ein hunain ar gyfer llwyddiant a threulio amser yn clywed am ein gwaith ein gilydd.

- Mae Rhaglen Trawsnewid y We, sy'n gweithio gyda thimau ar draws y Sefydliad cyfan, yn gweithio i foderneiddio ein gwasanaethau gwefan, gan ddod â safbwynt sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr i bopeth a gyhoeddwn. Rydym wedi adnewyddu ein strategaeth gwefannau, nodi segmentau cynulleidfa ynghyd ag anghenion a nodau defnyddwyr, ac ailgynllunio pensaernïaeth ein gwefan i wella profiad y defnyddiwr. Mae'r holl waith hwn yn sail i adnewyddu ein gwefan a fydd yn cael ei lansio yn 2025.

## Perfformiad Ariannol

### Yr hyn a gyflawnwyd gennym

Yn chwarter un 2024/25, fe wnaethom gwblhau ein sefyllfa ariannol a'n cyfrifon blynyddol ar gyfer 2023/24, gan gyflawni ein dyletswydd ariannol i fantoli'r cyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 ac ar gyfer cyfnod tair blynedd treigl 2021/24. Fe wnaethon ni hefyd gyrraedd targed GIG Cymru i dalu 95% o gontractau y tu allan i'r GIG o fewn 30 diwrnod. Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ei datganiadau ariannol drafft o fewn yr amserlenni gofynnol, gydag Archwilio Cymru yn cyhoeddi barn ddiamod ar y Datganiadau Ariannol.

Mae ein datganiadau ariannol ar gyfer 2024/25 yn rhoi trosolwg manwl o'n perfformiad ariannol yn 2024/25 ac maent wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Cyfrifon Blynyddol.

Ymhlith llwyddiannau ariannol eraill yn ystod y flwyddyn roedd datblygu Cynlluniau Buddsoddi 2024/25 a oedd yn galluogi'r sefydliad i ddarparu adnoddau ar gyfer blaenoriaethau allweddol o fewn ein strategaeth. Hefyd, fe wnaethom ddatblygu ac ailgynllunio ein Hadroddiad Perfformiad a adroddwyd i'r Bwrdd am y tro cyntaf ym mis Medi 2024, gan gyflwyno amrediad o fesurau perfformiad newydd a diweddariadau i Flaenoriaethau Strategol, gan dderbyn adborth rhagorol gan randdeiliaid.

## Ein Hystâd

Mae'r flwyddyn wedi gweld ffocws ar barhau i ddatblygu a gwella ein hystâd, gan gefnogi staff i weithio'n wahanol yn unol â'n Polisi Gweithio Sut Mae'n Gweithio Orau a gwella amgylcheddau gwaith presennol i ddarparu amgylcheddau gwaith gwell i gydweithwyr a defnyddwyr gwasanaethau.

Yn ystod y Prosiectau hyn, mae egwyddorion yr economi gylchol yn parhau i fod yn sail i'r ffordd rydym yn gweithio lle y bo modd, ynghyd â cheisio gwneud pethau sy'n cefnogi ein hymrwymiadau cynaliadwyedd – mae hyn wedi cynnwys rhoi rhagor o ddodrefn dros ben i gymunedau a rhannau eraill o'r GIG.

Mae cyfleoedd i ddatblygu ein seilwaith Cerbydau Trydan ymhellach wedi cael eu dilyn ac mae gwaith wedi dechrau i gynyddu cwmpas ein hachrediad ISO 140001 i fwy o'r Sefydliad fel rhan o'n hymrwymiad i gynaliadwyedd.

> "MAE'R FLWYDDYN WEDI GWELD FFOCWS AR BARHAU I DDATBLYGU A GWELLA EIN HYSTÂD, GAN GEFNOGI STAFF I WEITHIO'N WAHANOL"

### Yr hyn a gyflawnwyd gennym

Yn 2024/25 roedd rhai o'n cyflawniadau allweddol fel a ganlyn:

- Cwblhawyd y gwaith o ddodrefnu llawr 6 yn Rhif 2 Capital Quarter (CQ2) yng Nghaerdydd er mwyn caniatáu i nifer gynyddol o staff sy'n dod i CQ2 gael lle i weithio.

- Cynyddu'r defnydd o ofod digwyddiadau CQ2; cynnal digwyddiadau mawr arwyddocaol gan gynnwys cynhadledd gyntaf Diwrnod TB (Twbercwlosis) y Byd, cynhadledd Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru Gyfan a chynnal cynhadledd Cymunedau Arloesi'r Economi Gylchol Cymru. Mae'r Is-adran wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn gan ddefnyddwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru a Sefydliadau eraill y GIG sy'n defnyddio'r cyfleuster.

- Llwyddwyd i gwblhau gwaith cyfalaf a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith gwella ystadau ar safle Bron Brawf Cymru, Abertawe.

- Cefnogwyd iechyd a llesiant staff wrth weithio gartref drwy gynyddu mynediad at hyfforddiant Gweithio Gartref yn Ddiogel a'i gwblhau er mwyn cefnogi staff ar draws y Sefydliad sydd wedi dewis mabwysiadu trefniadau gweithio hybrid.

- Cyflawnwyd Achrediad Rheoli Amgylcheddol ISO 140001 ar gyfer 2024/25.

- Cwblhawyd ad-drefnu'r Ganolfan Ymateb Acíwt, yr ystafell Ymholiadau Cyhoeddus a Chanolfan Alwadau Helpa Fi i Stopio.

- Dechreuwyd gwaith gyda'r nod o wella ac ymestyn y ddarpariaeth llety ar gyfer rhywfaint o'n hystâd yng ngogledd Cymru, gan gwblhau pythefnos o ymgysylltu wyneb yn wyneb â chydweithwyr yn y gogledd.



- Cwblhawyd nifer o'n prosiectau gwaith cyfalaf yn llwyddiannus, gan gynnwys uwchraddio unedau oeri aer ar safle Brawf Bron Cymru Caerdydd a safle Sgrinio'r Coluddion Parc Magden, a gwaith trawsnewid yn Llys Castan, Parc Menai, i gynorthwyo ag adleoli'r gwasanaeth Sgrinio Llygaid Diabetig o Lys Britannia i safle Llys Castan Parc Menai yn y gogledd.

## Cynaliadwyedd

Mae ein Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd 2024-2026 yn manylu ar y camau gweithredu rydym yn eu cymryd i fod yn sefydliad carbon-negatif (gan dynnu mwy o garbon deuocsid o'r atmosffer nag yr ydym yn ei ryddhau). Mae'r cynllun yn adeiladu ar ein cynnydd blaenorol ac mae'n cynnwys camau gweithredu rydym yn eu cymryd ar draws y Sefydliad i gefnogi agendâu'r economi sylfaenol a'r economi gylchol a chyfrannu at y nodau a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym wedi integreiddio'r agendâu hyn yn ein cynllunio oherwydd y gorgyffwrdd sylweddol rhyngddynt, er mwyn sicrhau bod gennym un cynllun sy'n dangos ein hymrwymiad i leihau ein hôl troed carbon.

A ninnau'n ddarparwr allweddol gwasanaethau'r GIG ledled Cymru, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi gweithgareddau cynaliadwyedd. Rydym yn cysoni ein huchelgais ein hunain â blaenoriaethau a thargedau allweddol a nodir yng Nghynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru i sicrhau ein bod yn lleihau ein hallyriadau carbon er mwyn cyflawni allyriadau Sero Net. Rydym wedi parhau i weithio ar y cyd â'n Byrddau Iechyd a'n hymddiriedolaethau partner yn y GIG a chyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i gyflawni ein Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd 2024-2026.

Fel y nodir uchod, rydym wedi cyflawni sawl prosiect i leihau ein heffaith amgylcheddol sy'n cyfrannu at agenda datgarboneiddio, economi gylchol ac economi sylfaenol y sefydliad. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, byddwn hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Cynaliadwyedd ar wahân sy'n ymdrin â data cynaliadwyedd a'n hôl troed carbon ar gyfer 2024/25 ar ein gwefan pan fydd data terfynol ar gael ym mis Medi 2025.



# DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

## Ein helpu i weithio tuag at ddyfodol iachach i Gymru

Mae'r byd yn newid ac felly hefyd yr heriau sy'n ein hwynebu o ran ein hiechyd. Dyna pam rydym yn gosod ein bryd ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig: gwella disgwyliad oes iach a lleihau'r bwlch rhwng y cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig. I gyflawni hyn, rydym yn cydnabod pwysigrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel galluogwr ar gyfer newid cynaliadwy.

Mae'n ymwneud â mwy na dim ond ymateb i heriau heddiw, mae'n ymwneud â llunio dyfodol mwy disglair ac iach i bawb. Rydym wedi nodi chwe blaenoriaeth feiddgar a, thros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn gweithio ar ddatblygu ein Mapiau Llwybrau, sy'n nodi'r pethau y mae angen i ni eu gwneud er mwyn cyflawni ein gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer Cymru iachach erbyn 2035.

Rydym yn cofleidio dull y 5 Ffordd o Weithio i'n tywys ar hyd y daith gyffrous hon er mwyn ein helpu i nodi'r llwybr gorau at gyflawni ac i integreiddio a chysoni amcanion ymhellach i wella perfformiad. Bydd y Mapiau Llwybr hyn yn ein helpu i gyrraedd cerrig milltir hanfodol ac yn ein helpu i wneud newid gwirioneddol a pharhaol ym mhob cam, yn y tymor byr (2025-28), y tymor canolig (2028-31), a'r tymor hir (2031-35).

> "MAE'R BYD YN NEWID AC FELLY HEFYD YR HERIAU SY'N EIN HWYNEBU O RAN EIN HIECHYD"

**Tymor hir:** Ar gyfer pob blaenoriaeth strategol, defnyddiom fethodoleg ôl-olygu i nodi'r camau y mae eu hangen i gyflawni amcanion ein Strategaeth Hirdymor 2035. Fe wnaethon ni weithio gyda'r School of International Futures i helpu i ddelweddu'r mapiau llwybr a sicrhau bod y gwaith rydym ni'n ei wneud nawr yn arwain at gyflawni ein hamcanion ar gyfer 2035.

**Atal:** Mae atal afiechyd yn rhan graidd o'n cenhadaeth sefydliadol wrth i ni weithio gyda'n gilydd dros Gymru iachach. Mae ein mapiau llwybrau yn amlygu'r camau iechyd cyhoeddus y mae eu hangen i atal clefydau, amddiffyn iechyd, darparu arweinyddiaeth system, gwasanaethau arbenigol ac arbenigedd iechyd cyhoeddus.

**Cydweithio:** Roedd y mapiau llwybrau yn adeiladu ar yr ymgysylltu helaeth a gyflawnwyd wrth ddatblygu ein Strategaeth. Maent yn darparu tryloywder yn ein cyfeiriad teithio ac yn ein helpu i nodi cyfleoedd, a datrysiadau, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid yn ogystal â'n galluogwyr i sicrhau ein bod yn gwneud y pethau cywir mewn ffordd gydgysylltiedig i fynd i'r afael â materion allweddol.

**Integreiddio:** Mae'r chwe blaenoriaeth strategol wedi'u cysylltu'n annatod ac mae llawer o feysydd gwaith yn pontio dwy flaenoriaeth strategol neu fwy. Mae arweinwyr y blaenoriaethau yn cyfarfod i drafod meysydd sy'n pontio er mwyn sicrhau bod y mapiau llwybrau yn ategu ei gilydd ac yn adlewyrchu un dull o ymdrin â materion trawsbynciol.

**Cymryd rhan:** Mae'r mapiau llwybrau wedi cael eu datblygu trwy weithio amlddisgyblaethol, traws-sefydliadol, dan arweiniad arweinwyr Blaenoriaeth a Noddwyr yn y Tîm Gweithredol. Maent wedi parhau â'r dull a fabwysiadwyd wrth ddatblygu ein Strategaeth – cynnwys ac ymgysylltu â chydweithwyr ar draws y sefydliad, a hwythau'n dod â'u gwybodaeth o waith o fewn y system iechyd cyhoeddus.



## Yr Egwyddor Gynaliadwy a datblygu mapiau llwybrau

Tymor hir: Ar gyfer pob blaenoriaeth strategol fe wnaethom ddefnyddio methodoleg ôl-gastio i nodi'r camau sydd eu hangen i gyflawni amcanion ein Strategaeth Hirdymor 2035. Fe wnaethom weithio gyda School of International Futures i helpu i ddelweddu'r mapiau llwybrau a sicrhau bod y gwaith yr ydym yn ei wneud nawr yn arwain at gyflawni ein hamcanion 2035.

Rydym yn ymrwymo i gydweithio â rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghydraddoldebau iechyd a thrawsnewid iechyd a llesiant pobl Cymru. Mae grym atal yn cael lle canolog yn ein hadroddiad, Buddsoddi mewn Cymru iachach: blaenoriaethu atal, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2025. Mae'n taflu goleuni ar yr angen brys i ganolbwyntio ar atal, o ystyried maint yr her sy'n ein hwynebu yng Nghymru. Nid yn unig y mae adeiladu sylfaen gref ar gyfer iechyd da yn hanfodol, mae'n allweddol i wella deilliannau iechyd a lleihau anghydraddoldebau yn awr ac yn y dyfodol. Bydd hefyd yn lleddfu'r straen ariannol ar y system iechyd a gofal, gan fod o fudd i gymdeithas yn ei chyfanrwydd.

Mae ein Sefydliad wedi ymrwymo i wella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru drwy ddull hirdymor. Mae hyn yn sicrhau strategaethau a phenderfyniadau cynaliadwy, gan ein helpu i lunio dyfodol gwell i'r cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethu a gadael gwaddol cadarnhaol i genedlaethau'r dyfodol.



## Yr hyn a gyflawnwyd gennym

Ym mlwyddyn ariannol 2024/25, rydym wedi cymryd camau sylweddol ymlaen o ran gwreiddio syniadau ar gyfer y dyfodol ar draws y sefydliad, gan estyn ein capasiti a'n set sgiliau. Mae hyn wedi cynnwys prosiectau sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, fel ein prosiect ar ddyfodol Cyfalaf Cymdeithasol yn Gadael neb ar ôl a dyfodol Cartrefi Fforddiadwy ar gyfer iechyd a llesiant. Rydym hefyd wedi cyflwyno amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant ac uwchsgilio i'r holl staff, yn ogystal â rhaglenni wedi'u teilwra i dimau penodol.

Rydym hefyd wedi bod yn rhannu ein dull yn weithredol gyda phartneriaid eraill drwy gymryd rhan yn Hwb Dyfodol, cymryd rhan mewn cyfnewidiadau dysgu gyda phartneriaid yn Cologne a'r Iseldiroedd a, hefyd, cydweithio â Thîm Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i ddatblygu astudiaethau achos craff.

Mae ein gwaith parhaus gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi mynd o nerth i nerth ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi llunio ein hymrwymiadau o amgylch pum cenhadaeth Cymru Can. Mae ein cytundeb partneriaeth yn allweddol i sicrhau y gall ein dau sefydliad gyflawni eu hamcanion a chael effaith wirioneddol. I gefnogi'r bartneriaeth hon ac i wreiddio'r Ddeddf ymhellach o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru, rydym wedi sefydlu ein Grŵp Hyrwyddwyr Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ein hunain gyda'r nod o wella ein cydweithredu, ein hintegreiddio a gyrru newid ystyrlon ar draws y sefydliad.

> "MAE EIN GWAITH PARHAUS GYDA SWYDDFA COMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL WEDI MYND O NERTH I NERTH AC YN YSTOD Y FLWYDDYN DDIWETHAF RYDYM WEDI LLUNIO EIN HYMRWYMIADAU O AMGYLCH PUM CENHADAETH CYMRU CAN"

Rydym yn parhau i nodi meysydd o'n gwaith sy'n enghreifftio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a lle y gallwn wneud y mwyaf o'n cyfraniad tuag at y nodau lles. Dyma rai enghreifftiau:

**3000**

Ers lansio'r Cynllun yn 2022, mae timau wedi cyflawni bron i 3000 o gamau gweithredu ystyriol o'r hinsawdd a chyrraedd dros 500 o unigolion yn flynyddol

- Enillodd yr Adran Gofal Sylfaenol ddwy wobr yn 2024. Enillodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen – Datgarboneiddio – Defnyddio a gwaredu anadlyddion, y wobr Cynaliadwyedd mewn Gofal Iechyd yng Ngwobrau Fferylliaeth Cymru 2024. Enillodd **Fframwaith a Chynllun Gwobrau Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru** wobr 'Cymru Iachach' yng Ngwobrau Cynaliadwyedd cenedlaethol cyntaf GIG Cymru ym mis Mehefin 2024. Mae'r Cynllun yn cefnogi lleoliadau gofal sylfaenol i wella eu cynaliadwyedd amgylcheddol. Ers lansio'r Cynllun yn 2022, mae timau wedi cyflawni bron i 3000 o gamau gweithredu ystyriol o'r hinsawdd a chyrraedd dros 500 o unigolion yn flynyddol, wedi'u gweithredu ar draws gofal sylfaenol ac sydd wedi dychwelyd gwerth ariannol, amgylcheddol, cymdeithasol a chlinigol a chyd-fuddion i staff a chleifion. Cyhoeddwyd astudiaeth achos (yn Saesneg yn unig) o'r Cynllun hefyd gan y Gynghrair dros Weithredu Trawsnewidiol ar yr Hinsawdd ac Iechyd (WHO).

- **Lansio Peilot ein Hwb Llywodraethu:** Bydd yr Hwb yn helpu staff i integreiddio cynllunio llywodraethu yn gynnar er mwyn sicrhau'r safonau uchaf o ran sicrwydd, cydymffurfedd ac effeithlonrwydd. Crëwyd Peilot yr Hwb Llywodraethu i helpu staff i ddeall ein gofynion llywodraethu yn well a datblygu ffyrdd o sicrhau cydymffurfedd a gwella gwneud penderfyniadau. Mae'n darparu arbenigedd pwnc, gan gefnogi arweinwyr prosiectau ag asesiadau effaith a helpu i ddatblygu datrysiadau sy'n cymhwyso'r pum Ffordd o Weithio. Mae'r dull cydweithredol hwn yn sicrhau bod penderfyniadau'n wybodus ac yn cyd-fynd â'n hegwyddorion craidd.

- **SimplyDo:** Mae'r platfform yn darparu popeth y mae ei angen arnom i gasglu, gwerthuso a gweithredu syniadau gwych, mewn ffordd dryloyw a chynhwysol, i holl staff Iechyd Cyhoeddus Cymru. Drwy greu heriau y gellir eu haddasu, rydym yn cipio syniadau yn ddiogel ac yn ysbrydoli newid. Mae'r platfform yn annog cydweithio ac ymgysylltu â holl gydweithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru i ennill cipolygon ffres a rhannu safbwyntiau a chysyniadau. Hefyd, mae'n caniatáu i ni werthuso a rheoli syniadau yn effeithiol, gan ddefnyddio offer i olrhain cynnydd syniadau a chyflawni canlyniadau. Mae'n gyfle i staff gyfrannu at flaenoriaethau strategol y sefydliad fel aelod gwerthfawr o'r gweithlu. Mae cymryd rhan yn heriau SimplyDo yn caniatáu i bobl gael eu clywed a'u gwerthfawrogi, a chymryd rhan yn uniongyrchol mewn llunio dyfodol y sefydliad ac iechyd poblogaeth Cymru.

- **Grŵp Hyrwyddwyr y Labordy Gwyrdd:** Mae staff Microbioleg, gyda chefnogaeth yr Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd, yn gweithio i leihau allyriadau labordai. Arweiniodd yr adroddiad, Mynd i'r Afael â Phlastig Untro a Gwastraff yn Labordai Microbioleg Iechyd Cyhoeddus Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2024, at ffurfio grŵp Hyrwyddwyr y Labordy Gwyrdd. Mae cyflawniadau allweddol yn cynnwys: arbed 29,952 o fagiau bob blwyddyn; Labordy Abertawe yn ailgylchu Bocsys Blaenau Pibed, gan ehangu'r fenter hon i bob labordy; a lleihau argraffu diangen trwy system LIMS, gan arbed 156,000 o ddalennau o bapur a £930 y flwyddyn, sydd gyfwerth â 15 coeden o garbon. Mae'r fenter hon yn cael ei hymestyn i labordai eraill. Mae grŵp cydweithio gyda 9 Bwrdd/Ymddiriedolaeth Iechyd GIG Cymru wedi'i sefydlu i ehangu'r ymdrechion hyn ledled y wlad. Mae'r Hwb wedi rhannu'r gwaith hwn mewn sawl digwyddiad, gan gynnwys digwyddiad Arweinyddiaeth yr Academi Lledaeniad a Graddfa a grŵp Cymuned Arbenigwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

**15**

lleihau argraffu diangen trwy system LIMS, gan arbed 156,000 o ddalennau o bapur a £930 y flwyddyn, sydd gyfwerth â 15 coeden o garbon

- **Gwyddor ymddygiad mewn ymarfer a pholisi:** Ailgylchu gwastraff y cartref (Saesneg yn unig): Diben yr astudiaeth achos hon oedd dangos sut y gall cymhwyso gwyddor ymddygiad helpu i nodi a gweithredu amrywiaeth o wahanol fathau o ymyriadau a all helpu i fynd i'r afael yn effeithiol â phenderfynyddion ymddygiad a dylanwadu ar ymddygiad. Gellir defnyddio'r hyn a ddysgir i helpu i lywio ymdrechion yn y dyfodol sy'n anelu at fynd i'r afael ag ymddygiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

- **Hapus:** Mae Hapus, a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2024, yn gydweithrediad â phartneriaid strategol newydd a rhwydwaith cynyddol o sefydliadau mewn sectorau fel y celfyddydau, diwylliant, treftadaeth, natur a gwirfoddoli. Mae'n hyrwyddo sgwrs genedlaethol am lesiant meddwl. Gwyddom fod cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn yn cael effaith brofedig ar lesiant meddwl, gan feithrin cysylltiadau cymdeithasol a hyrwyddo iechyd cymdeithasol cadarnhaol. Mae Hapus yn defnyddio dull poblogaeth gyfan i atal deilliannau iechyd gwael. Y nod yw adeiladu Cymru hapus ac iach ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

> "MAE HAPUS, A LANSIWYD YM MIS GORFFENNAF 2024, YN GYDWEITHREDIAD Â PHARTNERIAID STRATEGOL NEWYDD A RHWYDWAITH CYNYDDOL O SEFYDLIADAU MEWN SECTORAU FEL Y CELFYDDYDAU, DIWYLLIANT, TREFTADAETH, NATUR A GWIRFODDOLI."

- **Cymru Heb Drais:** Fframwaith a rennir ar gyfer Atal Trais Ymhlith Plant a Phobl Ifanc. Mae'r Fframwaith, a gynhyrchwyd ar y cyd ag asiantaethau lluosog, yn amlinellu dull iechyd y cyhoedd a system gyfan o atal trais, gan alw am weithredu ar draws cwrs bywyd a l leoliadau lluosog. Mae'n cynnwys naw egwyddor a strategaeth allweddol, gan fynd i'r afael â chefnogaeth i unigolion, teuluoedd, cymunedau a newid cymdeithasol. Mae'r Fframwaith, sydd wedi'i anelu at weithwyr proffesiynol, plant, pobl ifanc a chymunedau, yn llywio ymdrechion i wneud Cymru yn genedl sy'n rhydd rhag trais, gan wella diogelwch, llesiant a lleihau pwysau ar wasanaethau cyhoeddus fel gofal iechyd a chyfiawnder troseddol.

- **Archwiliad Dwfn o Economi Llesiant Gwlad:** Mae Cymru yn rhan o gyfres o archwiliadau dwfn i wledydd a gyhoeddwyd o dan Fenter Economi Llesiant Ewropeaidd Sefydliad Iechyd y Byd o dan arweiniad Swyddfa Ewrop WHO ar gyfer Buddsoddi a Datblygu. Mae'n nodi cysyniadau a strategaethau, strwythurau a mecanweithiau llywodraethu allweddol, rôl iechyd y cyhoedd, a dulliau o fesur a monitro cynnydd. Mae'n tynnu sylw at y sbardunau a'r rhwystrau y mae Cymru wedi'u hwynebu ar y llwybr tuag at economi lesiant.

- **Cartrefi oer yng Nghymru: A yw'r drefn wresogi foddhaol yn briodol ar gyfer iechyd a llesiant?** Mae'r adroddiad hwn ar y cyd â Phrifysgol Bangor yn cydnabod pwysigrwydd cynhesrwydd fforddiadwy i iechyd a llesiant ac mae'n darparu argymhellion i lunwyr polisi ar y drefn wresogi foddhaol i lywio'r dull o fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru.

- **Fframweithiau ac Offer Tegwch Iechyd** Mae'r ddogfen hon yn llunio ystod o fframweithiau ac offer tegwch iechyd i alluogi llywodraethau, sefydliadau ac unigolion i weithio tuag at degwch iechyd. Mae'r fframweithiau a'r offer yn cynnwys gwahanol ddulliau o weithio tuag at degwch iechyd ac maent wedi'u categoreiddio'n 5 dull bras: Llyfrgell adnoddau, data, gweithred, gwerthuso, damcaniaeth.



## Yr Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd – Gweithio tuag at ddyfodol lle y gall pobl a'r blaned ffynnu

Mae'r Hwb yn gweithio'n agos gyda staff i archwilio sut gall yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy rymuso unigolion, timau a'r Sefydliad i wireddu'r Pum Ffordd o Weithio. Mae'r meysydd gwaith yn cynnwys:

- **Mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iechyd:** Cefnogi timau gyda'r gweithdy Amgylchedd Iach, sy'n helpu timau i greu cynlluniau gweithredu i leihau effeithiau amgylcheddol ac effeithiau'r hinsawdd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaeth 80 o staff o 22 tîm ar draws 7 cyfarwyddiaeth gymryd rhan, gyda 45 wedi'u hyfforddi i hwyluso'r gweithdy, gan arwain at 11 cynllun gweithredu yn canolbwyntio ar ddatgarboneiddio, bioamrywiaeth ac effeithlonrwydd adnoddau.

- **Ail Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth:** Gan weithio gyda phartneriaid a chydweithwyr ac mewn ymgynghoriad â staff a thimau yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, cyhoeddwyd adroddiad Hyrwyddo Byd Natur er budd Dyfodol Iach ym mis Rhagfyr 2024 ac mae gwaith wedi dechrau tuag at gyflawni ein hamcanion.

- **Cymorth Teithio Llesol i staff:** Dros y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd digwyddiadau i staff i wreiddio cynaliadwyedd ar draws y Sefydliad. Mewn cydweithrediad â Sustrans, fe gynigiom hyfforddiant beicio, sesiynau cynnal a chadw beiciau, a chynllun llyfrgell beiciau, pob un â'r nod o annog staff i feicio i'r gwaith. Rydym wedi ailsefydlu Grŵp Defnyddwyr Beiciau (BUG) i staff sydd â diddordeb mewn beicio i'r gwaith a/neu ar gyfer gwaith.

- Drwy ein **Rhwydwaith Eiriolwyr Gwyrdd**, sydd bellach â thros 187 o aelodau, fe wnaethom hwyluso digwyddiadau a gweithdai ar-lein ar bynciau fel gwneud lle ar gyfer byd natur, arbed ynni a ffasiwn cynaliadwy.

- **Wythnos Hinsawdd Cymru:** Fe wnaethon ni gydweithio â Llywodraeth Cymru i gyflwyno diwrnod deinamig yn canolbwyntio ar iechyd, a oedd yn ymchwilio i effeithiau a chyd-fuddion gweithredu ar y newid hinsawdd i iechyd, gan ddenu dros 500 o wylwyr.

**80**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaeth 80 o staff o 22 tîm ar draws 7 cyfarwyddiaeth gymryd rhan

## Gwyddor Ymddygiad

Mae'r Uned Gwyddor Ymddygiad (BSU), a sefydlwyd yn 2022, yn galluogi cymhwyso gwyddor ymddygiad yn rheolaidd i wella a diogelu iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldeb iechyd yng Nghymru. Mae'r BSU yn ymgymryd ag amrywiaeth o waith rhagweithiol ac ymatebol, gyda'r nod o feithrin gallu, cyfle a chymhelliant ein staff a'n rhanddeiliaid i ddefnyddio gwyddor ymddygiad yn eu gweithgareddau. Mae enghreifftiau o'n gwaith yn cynnwys:

- Menter Cyfathrebu sy'n Ystyriol o Ymddygiad (BICI): cynnig cefnogaeth a dysgu ymarferol, i ailddatblygu dros 30 o wahanol fathau o gyfathrebiadau personol a gynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a rhanddeiliaid. Roedd y timau a gymerodd ran yn cynnwys: Gwasanaethau Sgrinio, Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy, Helpa Fi i Stopio, Microbioleg, Diogelu Iechyd, a'r Is-adran Gofal Sylfaenol (Meddygon Teulu a Deintyddol), ynghyd â rhanddeiliaid sy'n cynnwys Rhaglen Gwella Llid yr Isgroen Cymru Gyfan.
- Rhaglen Asiantau dros Newid Ymddygiad (BCA): rhaglen ddysgu a datblygu sy'n cefnogi ystod o ddeilliannau ymddygiadol, gyda chyfranogwyr o'r system iechyd cyhoeddus a Thrafnidiaeth Cymru.
- Cymuned Gwyddor Ymddygiad Cymru: gyda thros 350 o aelodau, y nod yw cynyddu gallu, capasiti a chysylltiadau gwyddor ymddygiad ar draws y system iechyd cyhoeddus yng Nghymru. Mae saith digwyddiad wyneb yn wyneb ac ar-lein wedi'u cynnal hyd yn hyn.

## Iechyd Rhyngwladol

Mae ein Strategaeth Iechyd Ryngwladol yn cefnogi cyflawni ein Blaenoriaethau Strategol, gan sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yn arweinydd byd-eang ym maes iechyd y cyhoedd drwy feithrin partneriaethau. Mae'r Ganolfan Rhyngwladol Cydlynu Iechyd yn parhau i alluogi dysgu rhyngwladol ac arfer da rhwng Cymru a phartneriaid byd-eang.

Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau nodedig sy'n cefnogi partneriaethau rhyngwladol yn cynnwys Deialog Polisi ar yr Economi Llesiant ac ymweliad gan Weinyddiaeth Iechyd,

> "MAE EIN STRATEGAETH IECHYD RYNGWLADOL YN CEFNOGI CYFLAWNI EIN BLAENORIAETHAU STRATEGOL, GAN SICRHAU BOD CYMRU YN PARHAU I FOD YN ARWEINYDD BYD-EANG YM MAES IECHYD Y CYHOEDD DRWY FEITHRIN PARTNERIAETHAU."



Lles a Chwaraeon yr Iseldiroedd a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd y Cyhoedd a'r Amgylchedd yn yr Iseldiroedd.

## Deialog Polisi ar yr Economi Llesiant

Bu Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio'n agos gyda Sefydliad Iechyd y Byd a Llywodraeth Cymru i drefnu'r Ddeialog Polisi ar yr Economi Llesiant yng Nghaerdydd (Mawrth 2025).

Nod mudiad yr Economi Llesiant yw ceisio ail-lunio economïau i flaenoriaethu llesiant y boblogaeth a llesiant y blaned, gan feithrin cymdeithasau mwy teg, cydlynol a llewyrchus.

Nod y ddeialog oedd ysgogi gweithredu a datblygu datrysiadau mewn dau faes allweddol:

- Buddsoddi mewn atal a thegwch iechyd.
- Deall y berthynas rhwng afiechyd ac anweithgarwch economaidd.

Llywiwyd y ddeialog gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a daeth ag arweinwyr o'r Ffindir, Gwlad yr Iâ, yr Alban a Chymru ynghyd. Rhannont fewnwelediadau a phrofiadau o ran hyrwyddo iechyd o fewn economïau llesiant. Arweiniodd y digwyddiad at ymrwymiadau i barhau i gyfnewid gwybodaeth, gan atgyfnerthu arweinyddiaeth Gwlad yr Iâ, y Ffindir, yr Alban a Chymru wrth hyrwyddo economïau llesiant ar raddfa fyd-eang.

## Ymweliad gan Weinyddiaeth Iechyd, Lles a Chwaraeon yr Iseldiroedd (VWS) a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd y Cyhoedd a'r Amgylchedd yn yr Iseldiroedd (RIVM)

Fe wnaethon ni groesawu ymweliad â Chymru gan gydweithwyr o VWS ac RIVM fel y gellid cyfnewid gwybodaeth a mewnwelediadau ynghylch iechyd ym mhob polisi, yr economi llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ymhlith y meysydd eraill a drafodwyd yr oedd y newid hinsawdd, asesu'r effaith ar iechyd, dulliau rhagweld a sut i symud systemau i atal.

# SYLWADAU I GLOI

**Mae ein cynnydd wrth gyflawni ein blaenoriaethau strategol allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn gamp fawr i'r Sefydliad ac mae'n adlewyrchu gwaith ac ymroddiad eithriadol ein staff ochr yn ochr â'n partneriaid, yn ystod cyfnod hynod brysur a heriol yng Nghymru.**

Rydym wedi parhau i esblygu ac aeddfedu fel Sefydliad i fod mor effeithiol â phosibl er mwyn cyflawni Cymru iachach a chynaliadwy.

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, rydym wedi datblygu ein Cynllun Strategol newydd ar gyfer 2026-28 sy'n nodi ein huchelgais gyffredinol i gynyddu disgwyliad oes iach a lleihau'r bwlch rhwng y rhai mwyaf a'r lleiaf difreintiedig. Rydym wedi gosod ein huchelgais i adfer disgwyliad oes iach i'r lefel yr oedd yn 2019 i ddynion a menywod yng ngoleuni'r data a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n dangos bod disgwyliad oes iach yn gostwng yng Nghymru.

Mae ein mapiau llwybrau ar gyfer blaenoriaethau strategol yn dangos y llwybr y mae angen i ni ei ddilyn dros y blynyddoedd nesaf i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Rydym wedi manteisio ar ddysgu rhyngwladol, datrysiadau arloesol a'r enghreifftiau gorau o bob cwr o Gymru. Mae hyn wedi llunio a gyrru ein ffocws ar sut y gallwn ddarparu'r gwerth mwyaf i bobl Cymru ac i'n partneriaid.

Rydym yn gwybod na fydd gwireddu'r gwelliannau hyn yn hawdd a bydd gofyn i ni weithio'n wahanol. Byddwn yn gweithio ar draws ffiniau sefydliadol a phroffesiynol a byddwn yn dangos ymrwymiad nid yn unig i gydweithio ond i wrando – ar ein staff, ein rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Byddwn yn croesawu adborth, dysgu ac yn nodi cyfleoedd i wella.

Rydym yn cydnabod na allwn lwyddo ar ein pennau ein hunain na pharhau i fabwysiadu dulliau traddodiadol o fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu. Byddwn yn harneisio potensial arloesiadau o fewn y byd digidol a data, yn enwedig yn gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial, gan gynnal y gofal priodol a chanolbwyntio ar ansawdd a diogelwch. Byddwn yn ceisio creu partneriaethau a chysylltiadau dwyffordd newydd, yn enwedig gyda meysydd fel y trydydd sector a'r cyhoedd.

Rydym yn sylweddoli maint yr heriau sy'n ein hwynebu. Bydd ymrwymiad, proffesiynoldeb ac ymdrechion ein staff gwych wrth wraidd llwyddiant a thrwy eu harweinyddiaeth a'u hymdrech nhw y byddwn yn adeiladu ar y cynnydd hyd yn hyn, ac yn parhau i ymateb i'r heriau a manteisio ar y cyfleoedd y byddwn yn eu hwynebu yn y blynyddoedd i ddod.

